



GWYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for an

**CYFARFOD ARBENNIG
O CYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**EXTRAORDINARY MEETING
OF THE ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**DYDD LLUN
12 RHAGFYR 2016
am 2.00 o'r gloch**

**MONDAY
12 DECEMBER 2016
at 2.00 pm**

R H A G L E N

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2. **YMGYNGHORIAD PROSIECT CYSYLLTIAD GOGLedd CYMRU GRID CENDEDLAETHOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

SWYDDOGOL

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	Y CYNGOR SIR
DYDDIAD:	12 Rhagfyr 2016
TEITL YR ADRODDIAD:	Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ymgynghoriad Olaf y National Grid ar y Llwybr Cyfan rhwng Wylfa a Phentir (Adran 42)
ADRODDIAD GAN:	Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr Awdur: Alun M Owen, Swyddog Achos Arweiniol AlunOwen@anglesey.gov.uk 01248 752481
DIBEN YR ADRODDIAD:	Cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i Ymateb yr Awdurdod i Ymgynghoriad Olaf y National Grid ar y Llwybr Cyfan rhwng Wylfa a Phentir (Adran 42)

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cysylltiad Gogledd Cymru arfaethedig y National Grid (Wylfa i Bentir) yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cynllunio 2008. O'r herwydd mae'n ofynnol i gais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu gael ei gyflwyno, ac mae'r National Grid yn disgwyll gallu ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio ym mis Hydref 2017.
- 1.2 Yn rhan o'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu rhaid i'r National Grid gynnal Ymgynghoriad Statudol. Mae'r ymgynghoriad cyn gwneud cais dan Adran 42 yn ymgynghoriad ffurfiol ac yn dilyn yr ymgynghoriad anstatudol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2015 gan National Grid. Mae'r ymgynghoriad Adran 42 yn para am gyfnod o 10 wythnos gan ddechrau ar 5 Hydref a dod i ben ar 16 Rhagfyr 2016.
- 1.3 Yn dilyn archwiliad o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwneud argymhelliaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a fydd yn gwneud penderfyniad ar y cais a'r amodau terfynol (a elwir yn ofynion) a fydd yn berthnasol i unrhyw gydsyniad, os rhoddir cydsyniad.
- 1.4 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi datgan yn flaenorol ei safbwyt cadarn na ddylai unrhyw linellau trosglwyddo trydan uwchben na pheilonau ychwanegol gael eu codi ar draws Ynys Môn na'r Fenai yn sgil ei bryderon difrifol am effeithiau datblygiad o'r fath. Erys y safbwyt hwnnw ac felly mae'r Cyngor yn datgan ei wrthwynebiad cryf i'r prosiect arfaethedig ar ei ffurf bresennol, fel y'i cyflwynwyd gan y National Grid.

Tud 1 o 4

Adroddiad Cyngor Llawn 05-12-2016

2.0 Dogfennau Ymgynghori Adran 42 y National Grid

2.1 Mae'r gyfres o ddogfennau a gyflwynwyd yn rhan o ymgynghoriad Adran 42 y National Grid yn cynnwys y deunydd canlynol:

Dogfennau Technegol

- Dogfennau ymgynghori – rhannwyd yn 4 cyfrol
- Cyfrol 1 – Dogfennau Cymunedol
- Cyfrol 2 – *Adroddiadau**
- Cyfrol 3 – Cynlluniau
- Cyfrol 4 – Dull ymgynghori'r National Grid

* 2.1 – *Adroddiad ar Ddethol yr Opsiwn Llwybr sy'n cael ei Ffafrio*

* 2.2 – *Adroddiad ar Aliniad y Llwybr Drafft*

* 2.3 – *Adroddiad ar Groesi'r Fenai*

* 2.4 – *Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR (21 Pennod gan gynnwys Atodiadau a Ffigurau))*

* 2.5 – *Adroddiad ar yr Opsiynau Strategol*

* 2.6 – *Achos Angen y Prosiect (2016)*

* 2.7 – *Geirfa'r Prosiect*

3.0 Dull Cyngor Sir Ynys Môn o fynd ati i ymateb

3.1 At ddiben cysondeb, mae'r strwythur yn dilyn ymatebion ac ymgynghoriadau blaenorol:

- Llythyr eglurhaol gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn
- Atodiad A – Adroddiad Strategol
- Atodiad B – Ymateb i'r Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR)
- Atodiad C – Adolygiad a wnaed gan Arup o'r:
Adroddiad ar Ddethol yr Opsiwn Llwybr sy'n cael ei Ffafrio, Adroddiad ar Aliniad y Llwybr Drafft, Adroddiad ar Groesi'r Fenai, Adroddiad ar yr Opsiynau Strategol ac Achos Angen y Prosiect, 2016

3.2 Mae'r deunyddiau ymgynghori wedi cael eu hadolygu a rhoddwyd sylwadau ar y prosiect fel y'i disgrifir yn y dogfennau a gyflwynwyd gan y National Grid yn rhan o'r ymgynghoriad Adran 42. Wrth baratoi'r ymateb manwl hwn, gofynnwyd am sylwadau gan swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn ac am fewnbwn arbenigol gan ymgynghorwyr proffesiynol a chyfreithiol (a ariannwyd gan y National Grid trwy gyfrwng y Cytundeb Perfformiad Cynllunio y cytunwyd arno â'r Cyngor). Felly mae ymateb y Cyngor yn cael ei gyflwyno 'heb ragfarnu' ei safbwyt ffurfiol fel y'i datgenir uchod.

SWYDDOGOL

3.3 Mae nifer o ymatebion y Cyngor yn ceisio tynnu sylw at feysydd lle mae angen rhagor o wybodaeth cyn y gellir cytuno ar Ddatganiad Tir Cyffredin gyda'r National Grid.

4.0 **Trosolwg o ymateb Cyngor Sir Ynys Môn**

4.1 Mae'r llythyr eglurhaol gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn yn cadarnhau ac yn ailddatgan safbwyt y Cyngor mewn ymateb i ymgynghoriadau anffurfiol blaenorol a wnaed gan y National Grid. Hynny yw, mae'r Cyngor o'r farn mai'r unig opsiwn amgen sy'n dderbyniol yw gosod y cysylltiad newydd arfaethedig rhwng Wylfa a Phentir i gyd dan ddaear.

4.2 Dyma bryderon allweddol y Cyngor:

- Y dull o fynd ati i ddatblygu'r dyluniad a lliniaru ei effeithiau
- Diffyg strategaeth gynllunio glir ar gyfer sicrhau cydsyniad ar gyfer y Gwaith Cysylltu
- Mae diffyg eglurder yn y ddogfennaeth am y dewis o leoliad ar gyfer man croesi'r Fenai a'r pennau twneli cysylltiedig a chost gwireddu'r datrysiaid peirianyddol

4.3 Yn yr Adroddiad Strategol (Atodiad A), mae'r prif themâu a nodwyd yn y ddau ymateb blaenorol yn cael eu cynnal ac fe ymhelaethir arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dyluniad y prosiect a'r camau i lliniaru ei effeithiau
- Strategaeth Gydsynio
- Ardal y Fenai
- Costau
- Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant
- Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol
- Twristiaeth
- Traffig a Thrafnidiaeth
- Effeithiau Cronnol
- Iechyd, Lles a Chydlyniant Cymunedol
- Ymgynghori

4.4 Ceir sylwadau manwl ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) yn Atodiad B.

4.5 Ceir adolygiad gan Arup o'r holl Adroddiadau Ymgynghori eraill yn Atodiad C.

5.0 **Casgliadau**

5.1 Bydd yr aelodau'n gyfarwydd â'r materion allweddol a'r prif themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn ac ymgynghoriadau blaenorol. Er mai dyma gam ffurfiol olaf y broses ymgynghori, bydd cyfleoedd o hyd i swyddogion ddylanwadu ar gynnwys y cyflwyniad am Orchymyn Cydsyniad Cynllunio yn y pen draw.

5.2 Ac ystyried safbwyt y Cyngor ynghylch gosod y ceblau dan ddaear, a methiant y National Grid i fynd i'r afael â hyn mewn modd boddhaol, bydd y Cyngor yn cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio ynghylch hyn. Gan gydnabod y pwysigrwydd a roddir ar gost gosod y ceblau dan ddaear o safbwyt gwneud penderfyniad, mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu ceisio cael cyfarfod ar y cyd ag Ofgem a'r National Grid i drafod y dull a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.

SWYDDOGOL

5.3 Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i:

- greu sylfaen o dystiolaeth ar yr effeithiau ar:

- Dwrisiaeth a Thirwedd
- Cymunedau
- Effeithiau Cronnol

fel sail i newidiadau i'r prosiect arfaethedig gan y National Grid a mesurau lliniaru.

- lobio Llywodraeth Cymru am Drydedd Pont

5.4 Bydd swyddogion yn ceisio gweithio gyda'r National Grid i sefydlu Datganiad Tir Cyffredin y cytunir arno; fod bynnag, lle ceir gwahaniaeth barn bydd hynny'n sail ar gyfer Adroddiad Cyngor Sir Ynys Môn ar yr Effaith Leol. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r aelodau.

5.5 Gofynnir yn barchus i'r aelodau gymeradwyo'r gyfres atodedig o ddogfennau sydd, ynghyd, yn ffurfio ymateb ffurfiol Cyngor Sir Ynys Môn i'r ymgynghoriad Adran 42. Yn amodol ar gymeradwyaeth Aelodau Etholedig, gofynnir hefyd am roi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr wneud unrhyw fân ddiwygiadau, amrywiadau neu gywiriadau a ganfyddir ac sydd yn rhesymol angenrheidiol cyn cyhoeddi'r ymateb yn ffurfiol.

5.6 Gofynnir am ddirprwyo hefyd er mwyn i'r Prif Weithredwr gynnal negodiadau ar y pecyn cyffredinol o rwymedigaethau a fydd yn cynnwys y rhwymedigaeth gynllunio berthnasol (S106) a chytundebau cysylltiedig ar gyfer y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

DIWEDD YR ADRODDIAD

DRAFFT - SWYDDOGOL

Mr Gareth Williams
Uwch Reolwr Prosiect
Datblygu Seilwaith Mawr
Cyflawni Cyfalaf
National Grid House
Warwick Technology Park
Gallows Hill
Warwick
CV34 6DA

16 Rhagfyr 2016

Annwyl Mr Williams

YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN I YMGYNGHORIAD EANG AR LWYBR TERFYNOL

NATIONAL GRID

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) er mwyn nodi ymateb y Cyngor i'r ymgyngħoriad uchod. Mae'r ymateb yn cadarnhau safbwyt y Cyngor yn ei ymateb i ymgyngħoriadau anffurfiol blaenorol a gynħaliwyd gan National Grid. Oherwydd ei bod yn ymddangos bod cysylltiad o dan y môr wedi cael ei ddiystyru ar sail ariannol a thechnegol gan National Grid, mae'r Cyngor yn credu mai'r unig ddewis derbyniol arall yw **tanddaearu'r cysylltiad arfaethedig yn gyfan gwbl** rhwng Wylfa a Phentir.

Mae'r Cyngor yn ategu'r safbwytiau cryf a fynegwyd yn eang gan drigolion Ynys Môn. Byddai ail linell uwch ben yn gyfochrog â'r llinell bresennol, neu'n agos ati, yn arwain at effeithiau sylweddol ar dirwedd yr Ynys, ac mae hynny'n codi pryderon difrifol. Mae'r tirlun yn allweddol i dwristiaeth, sy'n 'asgwrn cefn' economi Ynys Môn, ac i lesiant trigolion, busnesau a chymunedau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn credu bod yr effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fyddai'n deillio o linell uwch ben ychwanegol, a'i heffeithiau cronnol, yn cyfiawnhau cost ychwanegol cysylltiad tanddaearol. Mae'r Cyngor yn bryderus mai'r gost fu'r prif ffactor wrth i National Grid benderfynu ar y cynnig presennol, a hynny ar draul rhoi ystyriaeth briodol i bwysigrwydd y ffactorau eraill.

DRAFFT - SWYDDOGOL

Nid oes dim byd amlwg yn y dogfennau ymgynghori a ddarparwyd gan National Grid sy'n argyhoeddi'r Cyngor y gellir cyfiawnhau cysylltiad uwch ben, na'i fod yn angenrheidiol. Felly, ei safbwynt o hyd yw y dylai'r cysylltiad fod yn un cwbl danddaearol. Fodd bynnag, er hynny, mae'r Cyngor wedi adolygu deunyddiau'r ymgynghoriad ac wedi darparu ei sylwadau ar y prosiect fel y disgrifir hynny yn y dogfennau hyn. Felly, cyflwynir ymateb y Cyngor 'heb ragfarn' mewn perthynas â'i safbwynt ffurfiol fel y nodir hynny uchod.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ymateb y Cyngor i ddeunyddiau'r ymgynghoriad a chynllun arfaethedig National Grid. Mae prif bryderon y Cyngor fel a ganlyn:

- yr ymagwedd tuag at esblygiad dylunio a lliniaru. Er bod yna brinder gwybodaeth cyffredinol yn y ddogfennaeth mewn perthynas â lliniaru effeithiau'r cynllun, safbwynt CSYM yw na ddylid ystyried croesi Afon Menai ac unrhyw rannau tanddaearol fel 'lliniaru' effeithiau'r llinell uwch ben oherwydd bod yr elfennau yma yn rhan o bennu prosiect cysylltu addas. Hefyd, mae'r Cyngor yn credu y dylai NG barhau i adolygu dyluniad arfaethedig y cysylltiad a pharhau i drafod hynny gyda'r Cyngor â chyrff perthnasol eraill hyd at yr adeg y cyflwynir y cais. Oherwydd y diffyg gwybodaeth yn y deunyddiau ymgynghori a.42 mewn perthynas ag effeithiau tebygol gwahanol rannau'r llwybr ar y tirlun a'r cyfoeth gweledol a'r effeithiau tebygol ar dwristiaeth, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ei adolygiad ei hun o'r llwybr arfaethedig er mwyn canfod ym mhle, o leiaf, y dylai rhannau eraill o'r llinell fod yn danddaearol.
- diffyg strategaeth cynllunio glir ar gyfer caniatáu'r Gwaith Cysylltu. Mae'r Cyngor yn bryderus nad yw deunyddiau'r ymgynghoriad yn darparu'r eglurder angenrheidiol mewn perthynas â llwybr caniatáu gwahanol agweddu'r gwaith sydd eu hangen er mwyn cysylltu Wylfa Newydd â'r National Grid. Heb wybodaeth o'r fath mae'n amhosibl deall cwmpas llawn y gwaith y dylid ei ystyried yn yr AEA a'r rhngweithio posibl mewn perthynas â'r gwaith hwnnw. Mae hynny'n arbennig o wir mewn perthynas ag effeithiau cronnol ac effeithiau cydberthnasol. Mae'r Cyngor yn disgwl

DRAFFT - SWYDDOGOL

y bydd mwy o ymgysylltu a thrafodaeth fanwl yn cael ei gynnal â NG ar gwmpas y gwaith a methodoleg yr asesiadau hyn cyn iddynt gael eu datblygu'n sylweddol.

- mae yna ddiffyg eglurder yn y dogfennau ynglŷn â dewis lleoliad croesi Afon Menai a'r pennau twnnel perthnasol, a chost a dichonolrwydd y datrysiaid peirianyddol. Mae'r Cyngor yn bryderus na cheir y manylion angenrheidiol yn y dogfennau er mwyn cyfiawnhau'r penderfyniadau peirianyddol allweddol yma ac i egluro pam y diystyriwyd opsiynau eraill. Yn benodol, drwy ganolbwytio ar un lleoliad croesi heb hyder ynglŷn â dichonolrwydd y croesi yn y lleoliad arfaethedig, mae'r Cyngor yn bryderus y gall NG geisio aifeddwl ynglŷn â llinell uwch ben.

Yn ychwanegol i'r llythyr hwn, nodir ymateb y Cyngor i ddeunyddiau ymgynghoriad a.42 a ddarparwyd gan National Grid yn:

- Atodiad A - Adroddiad Strategol
- Atodiad B - Ymateb I Ymgynghoriad ar Yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR)
- Atodiad C - Adolygiad o - Adroddiad Dewis Opsiwn Llwybr a Ffafrir, Adroddiad Alinio Llwybr Drafft, Adroddiad Croesi Afon Menai, Adroddiad Opsiynau Strategol ac Achos Angen y Prosiect, 2016

Y materion penodol y mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflwyno i sylw National Grid yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad yw'r rhai canlynol:

1. Tanddaearu - Y ffordd ymlaen

Mae'r Cyngor wedi nodi darpariaeth Nodyn Cyngor 2 Yr Arolygiaeth Gynllunio: *Rôl awdurdodau lleol yn y broses caniatáu datblygiad*. Mae'r Cyngor yn nodi'r cyfre o dan 6.4 i'r Arolygiaeth Gynllunio gynorthwyo ymgysylltu effeithiol rhwng datblygwr ac awdurdod lleol

mewn sefyllfa o gyfyngder. O ystyried safbwyt y Cyngor mewn perthynas â thanddaearu a methiant National Grid i ymdrin â hynny yn ddigonol, mae'r Cyngor yn credu bod hon yn ffordd briodol o fwrw ymlaen a bydd yn cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â hynny.

Hefyd, a gan gydnabod y pwysigrwydd a roddir i gost tanddaearu o ran gwneud penderfyniadau, mae'r Cyngor yn bwriadu ceisio trefnu cyfarfod ar y cyd ag uwch gynrychiolwyr o Ofgem a National Grid er mwyn trafod yr ymagwedd a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru.

2. Twnnel Arfaethedig o dan Afon Menai

Mae'r Cyngor yn cefnogi gosod y ceblau ar draw Afon Menai fel rhan o uwch strwythur trydedd bont fel rhan o ddatrysiaid tanddaearu llwyr. Mae hyn yn seiliedig ar ymwybyddiaeth ers amser maith o faterion llanwol, cadwraethol a daearegol yn ogystal â manteision etifeddiaeth trydedd bont.

Mae croesfan Afon Menai wedi dod i'r amlwg wrth i National Grid gynnig twnnel fel ateb, ar ôl diystyru'r opsiynau o osod ceblau ar wely'r môr a drilio cyfeiriadol llorweddol. Mae'n ymddangos bod amcan bris twnelu wedi cynyddu gymaint fel ei fod bellach yn fwy nag amcan bris pont newydd. Mae codi trydedd bont wedi bod yn hen uchelgais gan y Cyngor hwn, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru drwy ei gynnwys yn ei Rhaglen Priffyrrdd.

Mae'r partïon yma yn cytuno'n llwyr fod angen archwilio'r posibilrwydd y gallai pont newydd gario ceblau, a hynny fel mater brys, a bu i'r Ysgrifennydd Cabinet sefydlu Gweithgor â chynrychiolaeth lefel uchel arno. Gallai'r cyllid a glustnodwyd gan National Grid ar gyfer y twnnel a'r gwaith cysylltiedig gael ei drosglwyddo fel cyfraniad sylweddol tuag at gost pont newydd, a byddai hynny'n rhoi llawer mwy o flaenoriaeth iddi yn Rhaglen Llywodraeth Cymru. Yn hynny o beth, dylid ymrwymo'n bendant i'w hadeiladu a sefydlu amserlen ar ei chyfer fel na chyfaddawdir ar Gytundeb Cysylltu rhwng National Grid a Horizon ar gyfer gorsaf bŵer Wylfa Newydd. Yn y cyswllt hwn, mae Horizon wedi dangos parodrwydd i

DRAFFT - SWYDDOGOL

gydweithredu â'r Gweithgor. Mae hynny'n gydnabyddiaeth o fuddion gwaddol pont newydd i gymunedau lleol, yr economi ac ardal ehangach Gogledd Cymru, na fyddai'n deillio o dwnnel. Felly, mae'r Cyngor yn ymbil ar National Grid i ymgysylltu'n llawn ac yn adeiladol â'r Gweithgor.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gosod ceblau ar draws Afon Menai fel rhan o bont newydd, yn hytrach na thwnnel, yn elfen annatod o ddatrysiaid tanddaearu llwyr.

3. Nodau Llesiant

Mae'n sicr eich bod yn ymwybodol ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, o dan ddeddfwriaeth ddiweddar Cynulliad Cenedlaethol Cymru, roi ystyriaeth lawn i'r saith Nod Llesiant a danategir gan egwyddorion datblygu cynaliadwy, wrth iddo wneud penderfyniadau. Y nodau hyn yw creu:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru lachach
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Mae'r holl nodau hyn yn gymwys i gynigion National Grid a byddant yn ystyriaethau allweddol i'r Ysgrifennydd Gwladol wrth benderfynu ar unrhyw gais. Mae'r nodau hyn hefyd yn tanategu dyhead y Cyngor i weld datrysiaid tanddaearu llwyr. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy yn llwyr, yn yr ystyr bod penderfyniad y

DRAFFT - SWYDDOGOL

Cyngor yn seiliedig ar ystyriaethau hirdymor ac yn creu'r cydbwysedd priodol rhwng agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a chost y prosiect.

Mae'r nodau hyn wedi bod yn ganllaw wrth barato'i'r ymateb hwn ynglŷn â chynigion penodol National Grid, newidiadau i'r dyluniad a chamau lliniaru. Fel rhan o ymgynghoriad ychwanegol cyn cyflwyno unrhyw gais, mae'r Cyngor yn disgwyli y bydd yn gallu cynnal mwy o drafodaethau â National Grid ynglŷn â sut mae'r cais yn bodloni'r Nodau Llesiant ar gyfer Ynys Môn cyn gweithredu ar hynny.

4. Traffig a Thrafnidiaeth

Ar ôl darllen y dogfennau Ymgynghori y tro cyntaf, bu i'r Cyngor gasglu nad yw National Grid wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r goblygiadau i drafnidiaeth a thraffig fydd yn deillio o'i gynigion, boed hynny'n llwybrau lorïau i symud deunydd a gloddiwyd fydd yn deillio o'r gwaith twnnel, lleoliad y compownd, neu gludo peilonau i'r safle ar hyd ffyrdd gwledig, materion ynglŷn â gwaddol etc. Trafodir y materion hyn yn fwy trylwyr yn yr Atodiadau.

5. Trosolwg o'r Pwyntiau Allweddol

Disgwyliadau'r Cyngor ynglŷn â'r camau nesaf yw -

- mwy o ymgynghori ar esblygiad y cynllun a'r AEA, yn cynnwys gwaelodlin a methodoleg, a gwerthuso a chostio opsiynau llwybrau;
- sicrhau ymgynghori ar gynlluniau manwl drwy gytuno ar ofynion mewn perthynas â defnyddio adnoddau a gweithwyr lleol, a thwristiaeth etc. cyn eu cyflwyno.
- mwy o drafodaeth ar strategaeth gynllunio a'r ymagwedd tuag at ganiatâu er mwyn sicrhau bod y dogfennau cais yn addas i'r diben.

6. Diffyg Manylion Cyffredinol

Mae'r Cyngor yn bryderus ynglŷn â'r diffyg manylion yn y ddogfennaeth drwyddi draw, gan gychwyn â data gwaelodlin, sy'n atal y Cyngor rhag ffurfio casgliadau ystyrlon a llunio

DRAFFT - SWYDDOGOL

cynigion lliniaru manwl. Mae'r diffygion hyn yn cael eu hamlygu'n fanwl yn yr ATODIADAU yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen.

7. Gwaith Asesu Ychwanegol

O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth a ddarparwyd gan National Grid hyd yma mewn perthynas â nifer o agweddau sylfaenol y Prosiect Cysylltu arfaethedig, bydd angen i'r Cyngor nawr gynnal ei waith asesu ei hun mewn perthynas â nifer o newidiadau arfaethedig i'r dyluniad sydd yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'i bryderon difrifol ynglŷn ag effeithiau rhai elfennau o ddyluniad arfaethedig y cynllun. Bydd y Cyngor yn paratoi rhaglen o'r gwaith angenrheidiol, ac yn ceisio cymeradwyaeth gan National Grid ar gyfer ariannu'r gwaith yma drwy teclyn gwaith o dan y cytundeb perfformiad cynllunio presennol.

8. Casgliad

Nid yw safbwyt y Cyngor wedi newid yn yr ystyr y gellir cyflawnhau datrysiaid tanddaearu llwyr a bod hynny wedi'i seilio'n gadarn ar bolisiau perthnasol a thystiolaeth. Felly, darperir yr ymateb manwl hwn 'heb ragfarn' mewn perthynas â safbwyt ffurfiol y Cyngor.

Hefyd, mae'n hollbwysig bod National Grid yn darparu ei Strategaeth Caniatáu arfaethedig ar gyfer Prosiect Cysylltu Gogledd Cymru i'r Cyngor, gyda'r bwriad y bydd unrhyw ymagwedd gytunedig yn cael ei sicrhau drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y partïon a Chyngor Gwynedd.

Rwyf wedi copio'r ymateb hwn i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd oherwydd eu bod yn gyd-ymgyngoreion statudol ac yn aelodau o Weithgor y Drydedd Bont.

Yn gywir

Dr Gwynne Jones

Tudalen 7 o 7

Llythyr gan y Prif Weithredwr at National Grid 05-12-2016
Tudalen 11

ADRODDIAD STRATEGOL**1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM neu'r Cyngor) eisoes wedi nodi ei safbwyt cadarn na ddylid codi mwy o linellau trawsyrru trydan uwch ben na pheilonau ar draws Ynys Môn nac Afon Menai, oherwydd ei bryderon difrifol ynglŷn â'r effeithiau fyddai'n deillio o ddatblygiad o'r fath. Mae'r safbwyt hwnnw'n dal yr un fath ac felly mae CSYM yn gwrthwynebu'n gryf y cynllun arfaethedig a gyflwynwyd gan National Grid (NG).
- 1.2 Er hynny, mae NG wedi dewis ymgynghori ar Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru rhwng Wylfa a Phentir o dan adran 42 (a.42) Deddf Cynllunio 2008 fel cynnig sy'n cynnwys llawer iawn mwy o linellau trawsyrru trydan uwch ben a pheilonau. Er gwaethaf gwrthwynebiad cryf CSYM i'r cynnig hwnnw, mae wedi adolygu deunyddiau'r ymgynghoriad a ddarparwyd gan NG, ac mae'r ymateb hwn yn nodi safbwyt y Cyngor ynglŷn â'r dogfennau hynny.
- 1.3 Mae yna nifer arwyddocaol o gyfyngiadau ar allu CSYM i ymgysylltu â'r deunyddiau a gyflwynwyd gan NG ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae hynny'n cynnwys yr ymagwedd tuag at esblygiad dylunio a lliniaru. Er bod yna brinder gwybodaeth cyffredinol yn y ddogfennaeth mewn perthynas â lliniaru effeithiau'r cynllun, safbwyt CSYM yw na ddylid ystyried croesi Afon Menai ac unrhyw rannau tanddaearol fel 'lliniaru' effeithiau'r llinell uwch ben oherwydd bod yr elfennau yma yn rhan o bennu prosiect cysylltu addas. Hefyd, mae'r Cyngor yn credu y dylai NG barhau i adolygu dyluniad arfaethedig y cysylltiad a pharhau i drafod hynny gydag ef a chyrff perthnasol eraill hyd at yr adeg y cyflwynir y cais.
- 1.4 Oherwydd y diffyg gwybodaeth yn y deunyddiau ymgynghori a.42 mewn perthynas ag effeithiau tebygol gwahanol rannau'r llwybr ar y tirlun a'r cyfoeth gweledol a'r effeithiau tebygol ar dwristiaeth, mae'r Cyngor yn cynnal ei adolygiad ei hun o'r llwybr arfaethedig er mwyn clustnodi tanddaearu. Heb ragfarn ynglŷn â'r safbwyt y dylai'r holl brosiect gael ei danddaearu, mae'r Cyngor yn cynnal asesiad systematig o bob un o bum rhan y llwybr (A-E) ar Ynys Môn. Mae hyn yn cael ei gynnal gyda mewnbwn ymgynghoriaeth arbenigol a bydd yn adlewyrchu'r pryderon a fynegwyd gan drigolion, busnesau a chymunedau ar hyd y llwybr. Bydd yr ymarferiad manwl hwn yn dynodi rhannau ychwanegol o danddaearu a ategir gan dystiolaeth gadarn.
- 1.5 Bydd cynigion ar gyfer tanddaearu ar hyd y llwybr arfaethedig yn cael eu cyflwyno ar ôl cwblhau'r asesiadau y cyfeirir atynt uchod. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n actif â National Grid wrth ystyried yr opsiynau tanddaearu yma cyn cyflwyno'r cais GCD. Wrth gynnal y gwaith asesu hwn, efallai y canfyddir camau dylunio ychwanegol allai wrthbwys o effeithiau sylweddol tebygol y cynigion.
- 1.6 Mae yna ddiffyg strategaeth cynllunio glir ar gyfer caniatáu'r Prosiect Cysylltu. Mae CSYM yn bryderus nad yw deunyddiau'r ymgynghoriad yn darparu'r

eglurder angenrheidiol mewn perthynas â llwybr caniatáu gwahanol agweddau'r gwaith sydd eu hangen er mwyn cysylltu Wylfa Newydd â'r National Grid (sef y GCD arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig neu ehangach). Heb wybodaeth o'r fath mae'n amhosibl deall cwmpas llawn y gwaith y dylid ei ystyried yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) a'r rhngweithio posibl mewn perthynas â'r gwaith hwnnw. Mae hynny'n arbennig o wir mewn perthynas ag effeithiau cronnol ac effeithiau cydberthnasol. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd mwy o ymgysylltu a thrafodaeth fanwl yn cael ei gynnal â NG ar gwmpas y gwaith a methodoleg yr asesiadau hyn cyn iddynt gael eu datblygu'n sylwedol. Rhoddir mwy o fanylion yn adran 3.0 yr adroddiad strategol hwn sy'n ymateb i ymgyngħoriad a.42 NG.

- 1.7 Mae yna ddiffyg eglurder yn y dogfennau ynglŷn â dewis lleoliad croesi Afon Menai a'r pennau twnnel perthnasol, a chost a dichonolrwydd y datrysiaid peirianyddol. Mae CSYM yn bryderus na cheir y manylion angenrheidiol yn y dogfennau er mwyn cyflawnhau'r penderfyniadau peirianyddol allweddol yma ac i egluro pam y diystriwyd opsiynau eraill. Yn benodol, drwy ganolbwytio ar un lleoliad croesi heb hyder ynglŷn â dichonolrwydd y croesi yn y lleoliad arfaethedig, mae'r Cyngor yn bryderus y bydd NG yn ceisio ailfeddwli ynglŷn â llinell uwch ben. Rhoddir mwy o fanylion yn adran 4.0 yr adroddiad strategol hwn sy'n ymateb i ymgyngħoriad a.42 NG.
- 1.8 Mae Adran 5.0 yr adroddiad strategol hwn, sy'n ymateb i ymgyngħoriad a.42 NG, yn nodi mwy o fanylion ynglŷn â phryderon am ymagwedd NG mewn perthynas â'r opsiwn strategol a ffafrir ganddo.
- 1.9 Mae adrannau eraill yr adroddiad strategol hwn yn darparu:
 - i. trosolwg o'r prif bwyntiau sy'n deillio o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) a ddarperir fel rhan o ddeunyddiau'r ymgyngħoriad a.42; a
 - ii. mewn perthynas â phob mater, disgwyliadau CSYM mewn perthynas ag eitemau allweddol o wybodaeth neu ddogfennau drafft sydd eu hangen gan NG cyn cyflwyno ei gais.
- 1.10 Pan fo gwybodaeth goll, neu ofyniad i ymgyngħori ar fanylion unrhyw ddogfen benodol, yn cael ei amlinellu gan CSYM yn yr ymateb hwn, dylai NG ddarparu'r wybodaeth neu'r ddogfen honno, ac ymgysylltu â CSYM mewn perthynas â'r ddogfen honno. Hefyd, mae'r Cyngor yn disgwyl i NG ddarparu rhaglen ar gyfer darparu'r dogfennau a'r wybodaeth y nodir eu bod ar goll yn yr ymateb hwn, yn ogystal â manylion ynglŷn â phryd a sut y bydd NG yn ymgysylltu â'r Cyngor i gytuno ar faterion cyn cyflwyno'r cais. Yna dylid dilyn y rhaglen honno cyn cyflwyno'r cais.
- 1.11 Mae Atodiad B ymateb y Cyngor i ymgyngħoriad a.42 yn darparu pwyntiau penodol mewn perthynas â'r PEIR a ddarparwyd fel rhan o ddeunyddiau'r ymgyngħoriad. Fodd bynnag, mae yna lawer llai o sicrwydd ynglŷn â'r casgliadau a ffurfiwyd mewn perthynas ag arwyddocâd effeithiau oherwydd nad oes digon o wybodaeth waelodlin ac asesu yn yr adroddiad a'i atodiadau.

1.12 Mae rhan olaf [13.0] yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r dull ymgynghori yn gyffredinol, ac mae'n ymdrin â nifer o faterion cyffredinol y dylai NG sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yng ngweddill ei ymgynghoriad anstatudol cyn cyflwyno ei gais GCD.

2.0 DYLUNIAD Y PROSIECT A LLINIARU

- 2.1 Roedd lliniaru yn un o'r prif themâu yr adroddwyd amdani yn ymateb CSYM i Ymgynghoriad Cam 2 anstatudol National Grid (Rhagfyr 2015). Ymysg y sylwadau a wnaethpwyd yn yr ymateb, pwysleisiodd CSYM 'mae'n gritigol bwysig bod ymgsylltu digonol a chynnar â'r Cyngor yn digwydd er mwyn sefydlu beth y cytunir arno ynglŷn â chynigion manwl ar gyfer rheoli a lliniaru effeithiau.'
- 2.2 Mae gan CSYM ddua bryder sylfaenol ynglŷn â'r ffordd y mae opsiynau dylunio'r prosiect, a chamau lliniaru manwl, yn cael eu hystyried gan NG.

Ystyriaethau dyluniad y prosiect

- 2.3 Mae ystyried defnyddio ceblau tanddaearol, neu dechnoleg nad yw'n defnyddio ceblau uwch ben, er mwyn lliniaru effeithiau, yn eithriadol bwysig i CSYM, o ystyried ei safbwytro trofwaol y dylid ystyried tanddaearu ychwanegol ym mhob rhan o'r llwybr rhwng Wylfa a Phentir.
- 2.4 Yn y dogfennau drwyddi draw, wrth gyfeirio at ymgynghori â rhanddeiliaid, mae National Grid yn methu â chyfeirio at safbwytro trofwaol CSYM ynglŷn â'r gofyniad am danddaearu ychwanegol fel cam lliniaru rhwng Wylfa a chroesfan Afon Menai. Ar ôl ystyried y mater yng Nghyngor Llawn CSYM ym mis Rhagfyr 2015, penderfynwyd y byddai Opsiwn Strategol 3 National Grid (petai'n mynd rhagddo) angen mwy o gamau lliniaru drwy danddaearu, ac y dylai National Grid archwilio hynny'n llawn. Yn yr un modd, mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi sylwadau mewn perthynas â'r angen i ystyried datrysiaid cwbl danddaearol i Bentir. Mae CSYM a Chyngor Gwynedd yn nodi bod y posibilrwydd o danddaearu ychwanegol yn cael ei anwybyddu yn niffiniad y prosiect. Mae CSYM yn credu bod hwn yn hepgoriad pwysig y dylid ymdrin ag ef drwy fwy o ymgynghori â rhanddeiliaid ac yn y DA.
- 2.5 Mae CSYM yn nodi hepgorion pwysig perthnasol yng nghrynodeb Polisi Rhanddeiliaid, Cymunedau ac Amwynderau'r National Grid (Gweler Adran 3.3.5 yr adroddiad PROS), yn cynnwys yn benodol:
 - "Gwrthbwys pan nad yw lliniaru yn ymarferol "allai "gynnwys tirlunio a gwaith plannu neu fuddion eraill i gymunedau yr effeithir arnynt",
 - "Gwella'r amgylchedd o gwmpas ein gwaith "fydd yn "ystyried pa gamau ymarferol ellir eu cymryd er mwyn gwella ardaloedd sy'n agos i'r gwaith er lles cymunedau lleol a'r amgylchedd naturiol", a
 - "Gweithio ag eraill" er mwyn "creu amgylchedd ble gellir rhannu a chyflawni arferion gorau"

Mae NG wedi methu â nodi'n glir a thryloyw sut mae'r sylwadau a roddwyd yn ystod ymgynghoriadau blaenorol, ac yn ystod cam presennol yr ymgynghoriad a.42 hwn, wedi dylanwadu ar y prosiect.

- 2.6 Mae Adran 4 Adroddiad Dewis Opsiwn Llwybr a Ffafrir (y PROS) yn cynnwys darpariaethau Polisi Cynllunio Cenedlaethol perthnasol, ond mae'n methu â nodi sut y cyflawnwyd yr ymrwymiadau hyn yng nghyd-destun penderfyniadau dylunio. Yn benodol, mae NG wedi methu â darparu gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd yr egwyddorion asesu canlynol a nodir yn EN-1 yn cael eu bodloni:
- Y buddion posibl, yn cynnwys cyfraniadau at seilwaith ynni, creu swyddi, ac unrhyw fuddion hirdymor neu ehangach; a'r
 - Effeithiau niweidiol posibl, yn cynnwys unrhyw effeithiau hirdymor a chronnol, y ogystal ag unrhyw gamau lliniaru a ymgorfforir er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol hyn.
- 2.7 Roedd National Grid o'r farn, fel yr adroddwyd am hynny yng Nghrynodeb Gweithredol Adroddiad PROS, bod 'Canlyniad y Gwerthuso Opsiynau wedi arwain y National Grid i gadarnhau'r ffafriaeth flaenorol tuag at linell uwch ben lawn drwy rannau yma'r Llwybr, oherwydd credir y byddai hynny'n cydymffurfio â pholisi cynllunio perthnasol a dyletswyddau statudol y National Grid.' Hyd yma ni phrofwyd i ba raddau y mae'r opsiwn Llwybr a ffafrir yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio perthnasol a'r dyletswyddau statudol drwy'r broses GCD cyn ymgeisio na cham cyflwyno cais y broses gynllunio. Dylid nodi nad yw'r AEA wedi cael ei gwblhau hyd yma, a bod y broses o gasglu data yn mynd rhagddi. Mae CSYM yn credu y bydd angen mwy o wirio, ac y dylid ymgynghori ar fwy o adolygu dylunio, yn cynnwys y posibilrwydd o fwy o danddaearu, fel rhan o ymgysylltu cyn ymgeisio parhaus.

Mesurau Lliniaru

- 2.8 Mae'r mesurau lliniaru a geir yn nogfennau ymgynghori a.42 yn cael eu cyflwyno'n gyffredinol yn unig ac mae diffyg manylion penodol am y prosiect ynddynt. Mae CSYM yn annog National Grid, o ystyried y sylwadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a'r ymateb i'r Ymgynghoriad Cam 2 blaenorol, i ymgynghori ar fesurau manwl cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod digon o gyfleoedd yn cael eu darparu er mwyn datblygu a chytuno ar ystod o fesurau gyda rhanddeiliaid cyn cyflwyno'r cais GCD. Dylai National Grid gyfeirio at y mesurau penodol a chyffredinol a gyflwynir yn ymateb CSYM i'r PEIR.
- 2.9 Mae adran drosolwg Adroddiad Alinio Llwybr Drafft (y DRA) yn cyfeirio at '*liniaru drwy ddylunio*, 'fodd bynnag, dyma'r unig dro y cyfeirir at hynny yn yr adroddiad cyfan. Byddai croesgyfeirio at y PEIR a dogfennau eraill y prosiect yn y cyswllt hwn yn briodol. Mae Adran 2.5 y DRA yn nodi bod 'Adborth o'r Ymgynghoriad Cam 2 wedi hysbysu'r dyluniad manwl a lleoliad y peilonau arfaethedig a gyflwynwyd yn Ymgynghoriad Cam 3, ac fe'u heglurir yn yr Adroddiad hwn'. Fodd bynnag, dylid nodi mai gwybodaeth o natur strategol yn unig a gyflwynwyd yn ystod y camau ymgynghori blaenorol. Dyma'r tro cyntaf i fanylion am aliniad a lleoliad peilonau arfaethedig fod ar gael i roi sylwadau arnynt.

2.10 Nid yw'r mesurau Iliniaru a nodir yn Rhan 3 Adroddiad PROS (ac sy'n gynwysedig hefyd yn yr Adroddiad DRA) yn cynrychioli'r amrediad cyfan o fesurau Iliniaru y byddid yn disgwyli iddynt gael eu datblygu fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a phroses datblygu'r prosiect. Mae CSYM yn credu bod eu cynnwys yma, ac yn yr Adroddiad DRA, yn llai perthnasol nag yn y PEIR, y Datganiad Amgylcheddol, a'r datganiad dull manwl, oherwydd dylid defnyddio'r rhain fel y prif ddull o fynegi cynlluniau Iliniaru penodol ac o ymgynghori arnynt. Mae CSYM yn credu bod y sylwadau cychwynnol ac amlinellol canlynol ar y mesurau Iliniaru a nodir gan National Grid yn bwysig er mwyn helpu i siapio camau nesaf y prosiect.

2.11 Plannu Sgriniau

- 2.11.1 Yma mae National Grid yn nodi y 'gellid' plannu at ddibenion sgrinio, heb unrhyw ymrwymiadau pendant ar y cam hwn. Oherwydd natur y datblygiad arfaethedig h.y. mae'n cynnwys strwythurau 'tal' amlwg iawn, mae CSYM yn credu y byddai'n annhebygol y byddai mesurau Iliniaru eilaidd ar y safle yn gwneud fawr ddim i leihau arwyddocâd rhai o'r effeithiau a ragdybir, yn arbennig effeithiau gweledol Ilinellau uwch ben. Felly, disgwyli'r bydd angen mesurau oddi ar y safle er mwyn gwella'r tirlun cyfagos ac er mwyn sgrinio a/neu wella golygfeydd i gyfeiriad y datblygiad arfaethedig. Disgwyli'r hefyd y bydd angen gwaith oddi ar y safle er mwyn gwella profiadau defnyddwyr Hawliau Tramwyo Cyhoeddus (PRoW).
- 2.11.2 Mae angen mwy o wybodaeth ynglŷn â pha fesurau Iliniaru tirlun eilaidd a gynigir o fewn terfynau'r gorchymyn er mwyn lleihau effeithiau gweledol ac effeithiau ar y tirlun fydd yn deillio o ganlyniad i'r cynllun arfaethedig. Bydd angen y mesurau Iliniaru hyn, er enghraift, ar ffurf ailblannu ar y safle ble effeithiwyd ar goed a gwrychoedd gan waith adeiladu a hefyd o gwmpas unrhyw seilwaith safle benodol megis is-orsafoedd, Compowndau Terfyn Selio, Tai Pen Twnnel, etc.

2.12 Gwella Tirlun/Strategaethau Adfer

- 2.12.1 Mae CSYM yn credu y dylid paratoi strategaeth plannu a gwella oddi ar y safle ac y dylid ymgynghori arno cyn gynted â phosibl. Dylai hwn ddisgrifio'r mesurau arfaethedig, amlinellu eu pwrrpas a nodi'r dulliau o'u sicrhau fel rhan o'r broses GCD e.e. fel y dyluniwyd hynny yn y mesurau Iliniaru, y gofynion cynllunio ac ymrwymiadau cynllunio a.106. Dylai sylwadau gynnwys cyfleoedd i blannu ymlaen llaw, tarddiad a chyflenwad stoc planhigion.
- 2.12.2 Bu i'r broses o gytuno ar gwmpas a maint gwelliannau oddi ar y safle Prosiect Cysylltu Hinkley C gychwyn yn ystod cam ymgynghori a.42 a bu i hynny barhau am gyfnod hir hyd at y Gwrandoiadau Materion Penodol a gynhaliwyd yn ystod yr Archwiliad. Mae'n debygol y bydd y broses o gytuno â thirfeddianwyr trydydd parti yr un faith. Mae hyn yn dangos gwir werth cychwyn yn gynnar mewn perthynas â'r mater hwn.

- 2.12.3 Oherwydd natur y gwaith bydd angen codi coed a gwrychoedd er mwyn caniatáu adeiladu a gweithredu'r datblygiad arfaethedig; felly dylai'r angen am ailblannu gael ei nodi'n fanwl yn y dogfennau priodol ar gyfer ymgynghori â CSYM.

2.13 Amwynderau Preswyl

- 2.13.1 Fel rhan o adolygiad technegol PEIR, mae CSYM wedi mynegi pryderon am na chyflwynwyd dim methodoleg ar gyfer Asesu Amwynderau Preswyl. Disgwylir y byddir yn ymgynghori'n llawn ar y fethodoleg, deilliannau'r asesiad a'r cynigion ynglŷn â lliniaru'r effeithiau.

2.14 Technolegau Amgen neu Osgoi Effeithiau Opsiynau Llwybrau

- 2.14.1 Mae sylwadau CSYM ar asesiad NG o dechnolegau amgen neu osgoi effeithiau opsiynau llwybrau wedi eu nodi uchod o dan yr is-bennawd "ystyriaethau dylunio'r prosiect".

Crynodeb o ddyluniad y prosiect a lliniaru

- 2.15 Mae CSYM yn disgwyl i NG ymgysylltu ag ef mewn perthynas â'i adolygiad o'r materion ynglŷn â dyluniad y prosiect a'mlinellwyd uchod, ac i ystyried yn ofalus yr opsiynau a argymhellir sy'n deillio o'r broses honno o adolygu dyluniad y prosiect.
- 2.16 Hefyd, dylid paratoi cynllun manwl o fesurau lliniaru ychwanegol ac ymgynghori arnynt cyn cyflwyno'r cais GCD. Dylai'r cynllun manwl hwnnw hefyd ymdrin â'r modd y bydd y mesurau lliniaru hynny yn cael eu sicrhau yn y cais GCD a gyflwynir, naill ai fel gofynion neu ymrwymiadau cynllunio.
- 2.17 Mae CSYM yn disgwyl y byddir yn ymdrin â nifer o fylchau yn y wybodaeth drofwaol mewn perthynas â'r AEA newydd, ac mae'n disgwyl y byddir yn ymgynghori ag ef ynglŷn â hwy. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori manwl ychwanegol ar ddata gwaelodlin newydd, asesiad o'r effaith a'r mesurau lliniaru arfaethedig ar draws pob maes.
- 2.18 Bydd angen rhaglen o ymgysylltu â CSYM ar frys er mwyn canfod pryd fydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu, pryd fydd newidiadau i'r dyluniad neu fesurau lliniaru yn cael eu cynnig, pryd fyddir yn ymgynghori ac yn cytuno arnynt, a sut fydd y mesurau hynny yn cael eu sicrhau a'u cyflawni o dan y GCD arfaethedig.

3.0 STRATEGIAETH GANIATÁU

- 3.1 Hyd yma nid oes strategaeth ganiatáu glir a chynhwysfawr ar gyfer holl elfennau'r prosiect, yn cynnwys datblygiadau cysylltiedig a gwaith ehangach, wedi cael ei ddarparu. Gwnaethpwyd cais am hynny wrth ymateb i Gwmpasu, ond nid yw wedi ei ddarparu yn neunyddiau ymgynghoriad a.42.

- 3.2 Mae'r Adroddiad Opsiynau Strategol (SOR) a ddiweddarwyd yn amlinellu strategaeth ganiatáu NG ar lefel uchel iawn. Fodd bynnag, nid yw hynny ond yn cadarnhau y bydd holl elfennau'r cynllun rhwng Wylfa a Phentir yn rhan o'r cais GCD a gyflwynir, ac y bydd holl elfennau eraill y gwaith ehangach ar grid trawsyrru trydan Gogledd Cymru (y cyfeirir atynt fel "gwaith ehangach" yn y PEIR) yn destun ceisiadau i Gyngor Gwynedd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA). Ni ddarperir mwy o fanylion, ac yn sicr ni chyflawnheir pam fod ymagwedd o'r fath yn cydymffurfio â'r gyfundrefn ddeddfwriaethol bresennol. Bydd angen i'r DA a dogfennau technegol ategol ehangach nodi ymagwedd glir a diamwys tuag at asesu holl elfennau'r prosiect ehangach fel rhan o'r asesiad o effeithiau cydberthnasol a chronnol.
- 3.3 Mae CSYM yn nodi, o dan ddeddfwriaeth bresennol, y byddai ceisiadau am ddatblygiad cysylltiedig yng Nghymru (fel y diffinnir hynny gan Ddeddf Cynllunio 2008) yn cael eu cyflwyno o dan y TCPA i CSYM a Chyngor Gwynedd fel yr awdurdodau cynllunio ar gyfer eu hardaloedd. Mae CSYM yn disgwyl lefel dda o ddeialog cyn cyflwyno unrhyw gais o'r fath. Bydd angen i'r ceisiadau hyn a wneir o dan y TCPA gynnwys lefel angenrheidiol o wybodaeth a manylion fydd yn gymesurol â maint y gwaith arfaethedig. Efallai hefyd y bydd angen mwy o ymgynghori a byddai CSYM angen deall cwmpas hynny, ac y byddai angen i ddyluniad yr holl waith cysylltu fod yn destun adolygiad nes y datrysir yr ymagwedd tuag at ganiatáu y gwaith amrywiol.
- 3.4 Mae CSYM eisoes wedi cydnabod y byddai strategaeth ganiatáu NG yn fater allweddol mewn perthynas ag archwilio'r prosiect. Mae penderfyniadau GCD diweddar yng Nghymru wedi ymrafael â'r materion sy'n deillio o statws datblygiad cysylltiedig yng Nghymru, a chwmpas yr hyn gaiff neu na chaiff ei gynnwys mewn cais am NSIP sy'n cynnwys llinell drydan uwch ben. Mae'r penderfyniadau mewn perthynas â Chysylltiad Fferm Wynt Gogledd Cymru a Chysylltiad Coedwig Brechfa yn arbennig o nodedig.
- 3.5 Er yr uchod, mae CSYM yn credu y dylai National Grid baratoi llwybr dwbl ar gyfer y broses GCD er mwyn sicrhau bod yr opsiwn o adeiladu trydedd bont ar draws Afon Menai yn cael ei gynnwys pe na bai'r opsiwn o greu twnnel technegol yn bosibl. Fel rhan o'r broses hon bydd angen i National Grid ddarparu dadansoddiad o fuddion cost y ddau opsiwn ar gyfer twnnel a phont i CSYM a Chyngor Gwynedd. Bydd yr ymagwedd llwybr dwbl yn sicrhau bod yr Archwiliwyr a'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn opsiynau fydd yn cael eu hystyried yn brydlon a phriodol adeg yr Archwiliad.
- 3.6 Felly, mae CSYM eisoes wedi annog NG i gynnig a chytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) er mwyn ymdrin â sut y gellir rheoli'r ansicrwydd yma fel rhan o'r cais hwn. Yn anffodus, er i MOU drafft gael ei baratoi eisoes gan NG a'i ddarparu fel y gallai CSYM roi sylwadau arno, nid oedd digon o fanylion wedi cael ei darparu bryd hynny gan NG fyddai'n galluogi CSYM i ystyried telerau'r MOU a gynigiwyd. Gwahoddwyd NG i naill ai ddarparu'r manylion coll, neu MOU fyddai'n galluogi ffordd o gytuno ar y strategaeth ganiatáu pan fo'r manylion ar gael. Yn anffodus, nid yw CSYM wedi derbyn unrhyw gynnig arall gan NG mewn perthynas â hyn. Dylid darparu rhaglen

ymgysylltu ynglŷn â MOU cyn cyflwyno cais GCD, ac yna dylid gweithredu'r rhaglen honno.

4.0 ARDAL MENAI - (Croesi Afon Menai, Tŷ Pen Twnnel (THH), Compowndau Terfyn Selio (SECs), 3edd pont arfaethedig)

- 4.1 Mae Adroddiad Croesi Afon Menai (Adroddiad MSC) yn agor â chrynodeb o'r broses Werthuso Opsiynau hyd yma. Fel y dywedwyd gan CSYM mewn ymgynghoriadau blaenorol, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth dechnegol ategol fyddai'n cynorthwyo'r darllenydd i ddeall sut y diffiniwyd ffiniau'r ardaloedd chwilio.
- 4.2 Ar hyn o bryd, nid yw'n ddealledig sut y bydd effeithiau sylweddol posibl y twnnel arfaethedig fydd yn croesi Afon Menai yn cael eu lliniaru'n briodol er mwyn sicrhau bod datrysiaid derbyniol yn cael ei ddarparu. Mae CSYM yn credu nad yw lleoliad y tŷ pen twnnel, oherwydd hyd y twnnel, wedi cael ei asesu'n ddigonol yn yr adroddiad nac yn neunyddiau'r ymgynghoriad a.42 ehangach. Mae gan CSYM bryderon mewn perthynas â rheoli a chludo symiau sylweddol o wastraff fydd yn deillio o waith adeiladu'r twnnel, ac mae'n disgwyl am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gellid rheoli hynny'n briodol. Pe canfyddid nad yw twnelu o dan Afon Menai, fel yr Opsiwn Strategol a ffafrir, yn ddichonadwy, bydd angen ailymweld â'r SOR a phob un o'r opsiynau llwybr. Pe ystyrid y byddai Opsiwn Strategol arall yn briodol, efallai y byddai'r deunydd ymgynghori a gyflwynwyd gan National Grid at ddibenion ymgynghoriad Adran 42 yn amherthnasol. Mae hyn yn golygu risg i National Grid mewn perthynas â'r prosiect a'r rhaglen, ac mae'n effeithio ar adnoddau rhanddeiliaid mewn perthynas ag ymgysylltu â'r prosiect.
- 4.3 Nid yw'r gofyniad am Offer Cynhyrchu Ynni, fel y nodir hynny yn y PEIR, yn cael ei ystyried yn unman yn yr Adroddiad MSC. Mae'r PEIR ym Mhennod 13, Adran 3.3.25 yn nodi '*Mae adeiladu twnnel ar gyfer croesi Afon Menai yn debygol o fod angen ynni sylweddol fydd yn fwy na'r ynni fydd ei angen ar elfennau eraill y Prosiect Arfaethedig. Ar hyn o bryd, nid yw'r strategaeth ynni ar gyfer y groesfan wedi cael ei gwblhau. Fodd bynnag, tybir y bydd angen offer cynhyrchu ynni sylweddol, megis generaduron llosgi disel, neu debyg, er mwyn hwyluso'r gwaith twnelu.*' Hyd yma nid yw'r ymgynghori a rennir â CSYM wedi dangos i ba raddau y bydd hynny yn arwain at effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd a'r cymunedau lleol, a pha fesurau lliniaru fydd yn cael eu sicrhau.
- 4.4 Yn Adran 10.8.4 yr Adroddiad MSC cydnabyddir, fel yn achos y compowndau terfyn selio, y byddai angen lleoli'r tai pen twnnel yn unol â Rheolau Horlock. Mae CSYM yn gofyn am fwy o eglurder ynglŷn â sut y cymhwyswyd Rheolau Horlock mewn perthynas â werthuso lleoliadau arfaethedig y tai pen twnnel. Mae hi'n hollbwysig bod y compownd terfyn selio a'r tŷ pen twnnel arfaethedig yn cael eu lleoli mor sensitif ag sy'n bosibl er mwyn lleihau'r effeithiau ar Ardal Tirwedd Arbennig Tir Stad De Môn ac yn enwedig rhinweddau arbennig yr Ardal Tirwedd Arbennig. Bydd angen i'r cynigion lliniaru fod yn ddigonol ac yn helaeth er mwyn lleihau'r effeithiau a rhoi ystyriaeth lawn i'r ardal gyfagos.

- 4.5 Croesawir ymrwymiad i ystyried Adran E ac F (opsiynau o un pen i'r llall) gyda'i gilydd, ac mae hynny'n elfen gritigol o'r broses benderfynu. Nid yw'n glir i CSYM faint o ystyriaeth a roddwyd i amrywiol elfennau'r prosiect yn y broses benderfynu. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth sylwedol i safbwyt CSYM ynglŷn â thanddaearu ar draws Ynys Môn a safbwyt Cyngor Gwynedd ynglŷn â thanddaearu i Bentir.
- 4.6 Nid yw'r un o'r effeithiau a ddisgrifir yn y gwerthusiad un pen i'r llall yn cael eu mesur na'u graddio mewn ffordd fyddai'n hwyluso dealltwriaeth o berfformiad perthnasol yr opsiynau. Felly, nid yw'n bosibl i CSYM ffurфio barn mewn perthynas â digonolrwydd y broses benderfynu.
- 4.7 Adroddir ar ganlyniad y gwerthusiad yn Adran 12.6.18 yr Adroddiad MSC, sy'n casglu: '*O bwys o mesur ac ystyried effeithiau amgylcheddol posibl a chymhlethdodau technegol, cost gynyddol opsiwn twnnel hirach, a dyletswyddau statudol National Grid, mae Opsiwn C wedi cael ei ddewis ac mae'n cael ei ddatblygu fel dyluniad ar gyfer y cais GCD.*' O ystyried y diffygion a amlygwyd yn adolygiad CSYM, credir y byddai'r casglai hwn yn destun her oni bai y darperir mwy o dystiolaeth ac asesiad o berfformiad perthnasol yr opsiynau.
- 4.8 Mae angen mwy o resymeg ynglŷn â diystyru trydedd Bont Menai gan NG fel dewis arall hyfyw ar gyfer cludo'r ceblau. Deellir y bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i fwy o fanylion am y prosiect gael eu rhyddhau, ond ar hyn o bryd mae CSYM yn credu y byddai adolygiad o aliniad rhaglen y prosiect yn briodol er mwyn hysbysu'r dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae angen i National Grid weithio'n agos â CSYM, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Horizon Nuclear Power a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus (megis Heddlu Gogledd Cymru) er mwyn asesu'r effeithiau'n llawn ar Bont Britannia ac ystyried a ellid cynnwys offer National Grid mewn trydedd bont, fyddai'n arwain at effeithlonrwydd sylwedol (o bosibl yn cynnwys effeithlonrwydd masnachol) i'r holl bartiон.
- 4.9 Ar hyn o bryd mae gan CSYM nifer o gwestiynau sydd wedi codi o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn Adran 5.5 (Technegau Croesi ar gyfer Croesi Afon Menai):
- Mewn perthynas ag Adran 5.4.2 pa bellter gwahanu a gymhwyswyd rhwng y ceblau er mwyn delio â gwasgariad gwres?
 - Mewn perthynas ag adeiladu tanddaearol fel y'i disgrifir yn Adran 5.4.5, a glustnodwyd lleoliadau baeau uno ceblau, ac a aseswyd ac a liniarwyd eu heffeithiau?
 - Ym mha ffordd a fyddir yn ymgynghori â'r Cynghorau ynglŷn â deilliannau a goblygiadau arolygon bathymetrig a phlygiant seismig parhaus?
 - Faint o wastraff fydd Twnnel Menai yn ei gynhyrchu, a sut fydd hynny'n cael ei reoli?
 - Sut fydd symudiad y Peiriant Tyllu Twnnel (TBM) yn cael ei reoli?
 - Beth fyddai maint yr offer sypynnu fyddai ei angen ar gyfer leinio'r twnnel â chwistrelliad concrid, a beth fyddai goblygiadau eu gweithredu?
 - Wrth greu'r siafftau (Adran 5.5.40), sut fyddai effeithiau sŵn ac afonyddwch o ganlyniad i ffrwydro yn cael eu rheoli?

- Mae'r posibiliadau o ran holli daearegol a cholli hylif drilio yn cael eu nodi yn Adran 5.5.67 a chredir mai arwyddocâd bychan sydd i hynny. Beth yw potensial yr effeithiau morol sy'n gysylltiedig â hyn a sut fydd yr AEA yn delio â hynny?

- 4.10 Mae'n ymddangos bod yna anghysondeb yn y fframwaith ar gyfer ystyried lleoli gwahanol elfennau'r prosiect, oherwydd mae'n ymddangos na roddwyd unrhyw ystyriaeth i ansawdd aer a sŵn wrth leoli'r Compowndau Terfyn Selio (SECau). Os diystyrwyd y materion hyn dylid nodi hynny'n glir. Hyd yma ni ymgynghorwyd â CSYM ynglŷn â chynlluniau lliniaru, yn cynnwys sgrinio'r SECau. Darperir mwy o sylwadau mewn perthynas â'r PEIR.
- 4.11 Nodir yn Adran 8.3 Adroddiad MSC bod CSYM wedi mynegi ffafriaeth i Ardal Chwilio Gogledd Ynys Môn. Dylid nodi nad yw'r Cyngor yn datgan ei safbwyt mewn perthynas â'r SECau nes bod manylion ychwanegol yn cynnwys effeithiau posibl a mesurau lliniaru yn ddealledig.
- 4.12 Mae Adran 10.9.33 yr Adroddiad BSC yn casglu '*Er bod croesi Afon Menai yn her dechnegol sylweddol sy'n arwain at ffafrio Parth Croesi 2, oherwydd sensitifrwydd amgylcheddol yr ardal, ni phennwyd pa opsiwn a ffafrir yn gyffredinol.*' Mae CSYM yn cwestiynu sut, yn y pen draw, y gellir penderfynu ar opsiwn croesi a ffafrir wrth ystyried effeithiau ehangach ar draws elfennau eraill y prosiect. Byddai'n rhaid parhau i wirio'r effeithiau amgylcheddol arwyddocao'l fyddai'n deillio o'r opsiwn croesi a ffafrir wrth i effeithiau gael eu mesur fel rhan o broses AEA.
- 4.13 Gan gyfeirio at Adran 5 ardal Menai mewn perthynas â chordorau llwybr y llinell uwch ben, nid yw'n glir beth oedd canlyniad yr adborth ymgynghori ynglŷn â'r cydbwysedd ar draws yr amrywiol opsiynau, a faint o bwys a roddir i ganlyniad yr ymgynghoriad wrth benderfynu ar yr opsiwn a ffafrir. Er bod National Grid yn nodi pryderon o ran cymunedau lleol yn Adran E, dylid cydnabod ac ymdrin â'r pryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad mewn perthynas â dibrisio eiddo yn y prosiect ehangach. Mae Adran 7.3 yn cyfeirio at effeithiau amgylcheddol posibl; mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu disgrifio a'u hasesu yn y DA. Mae CSYM yn disgwyl y byddid yn ymgynghori ag ef ynglŷn â'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) cyn cyflwyno'r cais GCD.
- 4.14 Yn Adran 12.3.178 Adroddiad MSC, caiff casgliadau eu ffurfio o safbwyt technegol ynglŷn â'r datrysiaid un pen i'r llall mwyaf priodol. Mae'n ymddangos na adroddwyd ar gasgliadau tebyg mewn perthynas ag ystyriaethau amgylcheddol, a byddai CSYM yn disgwyl y byddid yn ymdrin â'r blwch hwn yn y wybodaeth.
- 4.15 Nid yw'r effeithiau posibl ar dwristiaeth yn ardal Menai yn cael eu trafod yn ddigonol yn y gwerthusiad. Mae angen mwy o dystiolaeth i ategu'r datganiad yn Adran 7.3.53; '*Oherwydd natur eu masnach a'u gweithrediadau, nid yw'n debygol y bydd unrhyw un o'r eiddo busnes/masnachol yn colli masnach o ganlyniad i'r effeithiau ar amwynderau fydd yn deillio o osod llinell uwch ben.*'

- 4.16 Mae angen mwy o wybodaeth asesu meintiol mewn perthynas â'r effeithiau sŵn posibl, er mwyn cefnogi'r honiad a wneir yn Adran 7.3.76 y cydymffurfir â'r polisi.
- 4.17 Mewn perthynas â'r amodau daearegol a nodir yn Adran 4.9, mae CSYM yn ymwybodol bod ffawtiau sylweddol yn Afon Menai, ac efallai bod yno weithgaredd seismig. Mae angen mwy o dystiolaeth er mwyn deall y risg cysylltiedig i gyflenwedd y dyluniad arfaethedig a ffafrir, a'r gost debygol.
- 4.18 Nid yw'r Cyngor wedi gallu canfod unrhyw ystyriaeth yn y casgliad o ddogfennau ymgynghori i'r angen am drwydded forol er mwyn cynnal gwaith twnelu o dan Afon Menai. Fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a geisir er mwyn delio â strategaeth caniatáu'r prosiect a gwaith ehangach, dylai National Grid nodi a fydd angen trwydded o'r fath neu beidio, ac os bydd angen, sut a phryd fydd cais am drwydded o'r fath yn cael ei gyflwyno er mwyn rhoi sicrwydd i'r Ysgrifennydd Gwladol (fel yr un fydd yn penderfynu ar y cais GCD) y bydd trwydded o'r fath yn cael ei roi.

5.0 OPSIYNAU STRATEGOL

- 5.1 Roedd costau'r prosiect yn un o'r prif themâu yr adroddwyd amdani yn ymateb CSYM i Ymgynghoriad Cam 2 anstatudol National Grid (Rhagfyr 2015). Nododd CSYM, 'Dylai National Grid ddarparu cyfanswm costau, sy'n cynnwys costau lliniaru ar gyfer pob opsiwn, a chostau 'cylch oes'. Dylid cyflwyno'r rhain mewn modd clir a thryloyw sy'n dadansoddi gwahanol elfennau'r costau. Ystyri'r bod hyn yn hanfodol er mwyn gallu ffurio cymariaethau priodol a chyfredol rhwng y gwahanol opsiynau'.
- 5.2 Mae datganiad costau National Grid yn yr ymgynghoriad a.42 yn nodi gwahaniaeth cost arwyddocaol (yn seiliedig ar ffigyrâu a ddarparwyd gan National Grid) rhwng yr Opsiwn Strategol a ffafrir ac Opsiynau Strategol eraill; gallai'r gwahaniaeth hwn fod yn llai arwyddocaol pan fo cost llawn newidiadau ychwanegol i'r dyluniad neu fesurau lliniaru yn cael eu hystyried.
- 5.3 Mae'r Adroddiad Opsiynau Strategol (SOR) yn darparu sylwadau ar gostau yn unig ac nid yw'n dadansoddi ystyriaethau ehangach effeithiau economaidd gymdeithasol ac amgylcheddol a ystyriwyd ac a adroddwyd arnynt fel rhan o'r broses Gwerthuso Opsiynau yn SOR 2015. Mae 'Ein Dull o Werthuso Opsiynau' (2012) y National Grid yn nodi:
- 'Mae Gwerthuso Opsiynau yn broses gydnerth a thryloyw yr ydym yn ei defnyddio i gymharu opsiynau ac asesu eu heffeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar draws ystod eang o feini prawf yn cynnwys ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol economaidd, technegol a chost'.
- 5.4 Felly, nid yw cwmpas y wybodaeth a gyflwynir yn y SOR yn bodloni'r meini prawf a nodir yng nghanllawiau'r National Grid ei hun.
- 5.5 Mae CSYM eisoes wedi dweud bod diffyg dystiolaeth gydnerth yn SOR 2015 ar gyfer ffurio casgliadau economaidd gymdeithasol ac amgylcheddol. Nid yw'r

SOR a ddiweddarwyd yn delio â'r blwch hwn yn y wybodaeth nac yn darparu adolygiad o unrhyw newidiadau i ystyriaethau amgylcheddol neu gymdeithasol economaidd allai ddylanwadu ar werthuso'r Opsiynau Strategol.

- 5.6 Mae nodiadau'r National Grid yn Adran 5.11 y SOR a ddiweddarodd wybodaeth mewn perthynas â hyd arfaethedig y llwybr a'r mesurau lliniaru a glustnodwyd ar gyfer Afon Menai yn galluogi National Grid i baratoi amcan gost fanylach ar gyfer yr opsiwn a ffafrir. Mae'r gost hon a ddiweddarwyd a gwiriad yn erbyn yr Opsiynau Strategol eraill a nodwyd yn cael eu disgrifio yn Adran 6 y SOR. Mae'r gwahaniaeth yng nghyfanswm cost yr Opsiwn Strategol a ffafrir a'r opsiwn rhataf agosaf (Opsiwn Strategol 6 OHL Hybrid am £915m) fel yr adroddir am hynny gan National Grid, wedi gostwng o £396m yn 2015 i £295 yn 2016.
- 5.7 Yn Nhabl 3 mae National Grid yn darparu cymhariaeth cost rhwng yr Opsiynau Strategol, ond dim ond costau'r opsiynau a ffafrir a ddiweddarwyd. Nid yw'n eglur pam nad yw National Grid wedi diweddu amcan gostau'r holl opsiynau.
- 5.8 Yn Adran 6.15 nodir 'Petai National Grid yn datblygu mwy ar yr Opsiynau Strategol eraill er mwyn paratoi amcan brisiau manylach (h.y. yn cynnwys lliniaru) ar gyfer yr opsiynau hyn, disgwylir y byddai'r amcan brisiau hyn yn aros yn ddifynewid ar y gorau, neu fwy na thebyg yn uwch na'r lefel cost a geir yn yr Adroddiad Opsiynau Strategol.'
- 5.9 Ni ddarparwyd mwy o wybodaeth gan National Grid i ategu'r honiad hwn, a dylid diweddu'r holl Opsiynau Strategol er mwyn sicrhau y ffurfir canlyniadau yn seiliedig ar dybiaethau cyfredol a chyfatebol. Mae National Grid yn nodi yn Adran 6.3 y SOR bod gwybodaeth contract diweddar ar gyfer gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr yn berthnasol i'r cyfrifiad cost. Mae'n ymddangos nad yw'r cyfrifiadau cost wedi cael eu diweddu ers 2015, er y gellid disgwyl y byddai'r rhain yn cael eu diweddu yn unol â chontractau diweddar.

6.0 COSTAU

- 6.1 Mae'r costau a nodwyd ar gyfer yr Opsiwn Strategol 3 a ffafrir nawr yn cynnwys amcanion costau ar gyfer croesi Afon Menai o dan y ddaear, yr oedd CSYM eisoes wedi gofyn amdanyst, ac fe'u croesewir. Y gost a nodwyd yn 2015 ar gyfer yr opsiwn a ffafrir oedd £519m, ac eithrio costau croesi Afon Menai, a amcangyfrifwyd (bryd hynny) y byddai'n costio £35-50m yn ychwanegol. Nawr nodir bod y gost yn £620m yn cynnwys croesi Afon Menai, cynnydd o £101m yn y swm a nodir. Nid yw'n eglur a yw'r cynnydd hwn o £101 miliwn yn deillio'n llwyr o groesi Afon Menai, ac os ydyw, pam fod y costau wedi dyblu ers 2015. Mae CSYM angen mwy o eglurder ynglŷn â'r mater hwn gan National Grid.
- 6.2 Fel y nododd CSYM eisoes, ni ddarparwyd unrhyw werthusiad cost manwl allai alluogi CSYM i wirio'r casgliadau mewn perthynas â chost. Hefyd, mae Adroddiad Croesi Afon Menai yn nodi mai cost yr opsiwn a ffafrir (Opsiwn D, Tabl 11.1 yr Adroddiad) yw £145-165m, ac nid yw'r rheswm am yr anghysondeb rhwng y dogfennau yn eglur.

- 6.3 Mae CSYM hefyd yn nodi bod National Grid, mewn cyfarfod Rhanddeiliaid ar 29 Medi, wedi dweud bod y costau sy'n gysylltiedig â chroesi Afon Menai yn tua £170.
- 6.4 Mae Adroddiad Croesi Afon Menai yn nodi mai ffigyrâu lefel uchel yw'r rhain yn unig, ond nad ydynt yn cynnwys unrhyw hapddigwyddiadau neu broblemau posibl fyddai'n deillio o amodau daearegol Afon Menai. Felly, mae'n bosibl iawn y byddai'r amcan gost yma yn codi eto. Mae'n hanfodol bod yr anghysondeb ymddangosiadol hwn yn cael ei ddatrys a bod mwy o eglurder yn cael ei ddarparu, yn cynnwys uchafswm cost gan ystyried hapddigwyddiadau a risgau, oherwydd byddai cynnydd arwyddocaol yn y costau twnelu yn lleihau'r gwahaniaeth cost rhwng yr opsiwn a ffafrir ac Opsiynau Strategol eraill.
- 6.5 Nid yw'r SOR a ddiweddarwyd yn ystyried unrhyw newidiadau i'r dyluniad ac eithrio Croesi Afon Menai. Mae'r Cyngor yn disgwl y bydd newidiadau i'r dyluniad yn cael eu darparu ar ffurf tanddaearu a dyluniad peilonau amgen, yn ogystal â mesurau lliniaru a gwella ar y safle ac oddi ar y safle. Nid yw hynny wedi cael ei ystyried yn y model cost hyd yma. Yn y SOR dangosodd National Grid y byddai costau fersiwn cwbl danddaearol o'r Opsiwn Strategol a ffafrir rhwng Wylfa a Phentir yn debyg i Opsiwn Strategol 6, yr opsiwn 'hybrid'. Felly, mae gan gostau newid dyluniad ychwanegol y potensial i newid y gwahaniaeth cost rhwng yr Opsiwn Strategol a ffafrir a'r dewisiadau amgen.
- 6.6 Mae ôl-wirio costau yn parhau i fod yn hanfodol wrth i'r opsiwn a ffafrir, ac unrhyw newidiadau i'r dyluniad a'r mesurau lliniaru barhau i gael eu diffinio. Dylai'r broses hon gynnwys costau'r holl fesurau lliniaru ymgorfforedig, sylfaenol ac eilaidd, yn cynnwys costau croesi Afon Menai. Mae National Grid wedi ymrwymo ei hun i ôl-wirio drwy gydol camau cyn ymgeisio GCD a chyflwyno cais y prosiect. Wrth i ddyluniad y llwybr esblygu disgwylir y bydd yna fwy o ymgynghori a thrafodaeth â CSYM ynglŷn â chostau'r cysylltiad fel y gellir parhau i'w deall a'u gwirio.
- 6.7 Dylai NG ddarparu rhaglen o ymgysylltu â CSYM sy'n ymateb i'r ymgynghoriad a.42 yma fydd yn ei alluogi i ddangos i CSYM y gellir cynnal y broses ôl-wirio hon yn drwyadl.

7.0 **YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT**

- 7.1 Mae'r adran hon a'r rhai dilynol yn yr adroddiad yn amlygu pryderon penodol, bylchau mewn gwybodaeth neu fesurau rheoli sydd angen eu hystyried, a phob un yn deillio o feisydd testunau penodol yn y PEIR. Mae sylwadau manylach ar y PEIR i'w cael yn Atodiad B i ymateb CSYM i'r ymgynghoriad.
- 7.2 Ystyrir bod Ynys Môn yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn elfen naturiol o fywyd bob dydd ar yr Ynys ac mae'nadlewyrchiad o'i thraddodiadau a'i diwylliant. Mae'r hanes cyfoethog a'r diwylliant Cymraeg sy'n diffinio'r ardal a'i thrigolion yn gysylltiedig â hyn. Mae cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar gefnogi a gwella cymunedau Cymraeg drwy

ddarparu digon o gyfleoedd cyflogaeth, addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith bob dydd.

- 7.3 Mae CSYM yn cydnabod bod National Grid wedi cyflwyno'r fethodoleg arfaethedig ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg (AEIG) a chyflwynwyd ymateb i hwnnw.
- 7.4 Roedd Yr iaith Gymraeg a Diwylliant yn un o'r prif themâu yr adroddwyd amdani yn ymateb CSYM i Ymgynghoriad Cam 2 anstatudol National Grid (Rhagfyr 2015). Mae'n allweddol bod yr iaith Gymraeg a Diwylliant yn cael eu trin fel thema holl gynhwysfawr ac fel llinyn aur sy'n tanategu'r modd yr ystyri effeithiau a mesurau lliniaru mewn perthynas â holl agwedduau prosiect National Grid. Mae Ynys Môn yn ardal ble mae'r iaith yn sensitif, ac felly bydd AEIG yn ystyriaeth bwysig a pherthnasol i'r sawl fydd yn penderfynu ar y cais GCD.
- 7.5 Hefyd, mae angen rhngwyneb priodol â Chynllun Strategol Addysg Gymraeg (CSAG) a'r targedau penodol y mae'n rhaid eu cyrraedd ar lefel leol. Hefyd nid oes digon o ryngwyneb â Chynllun Integredig Sengl Gwynedd ac Ynys Môn 2014, ac mae'r ddogfen yn methu â chydnabod yn ddigonol statws statudol llesiant yng Nghymru na gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 7.6 Dylai NG ddarparu'r AEIG drafft i CSYM heb fwy o oedi fel y gellir cynnal ymgynghoriad anffurfiol ar y ddogfen honno cyn cyflwyno'r cais GCD. Bydd angen i'r AEIG hwnnw ystyried y dogfennau polisi a amlinellir yn yr adran hon. Hefyd, dylai NG egluro sut fydd argymhellion yr AEIG yn cael eu sicrhau, mwy na thebyg fel gofyniad yn y GCD.

8.0 ECONOMAIDD GYMDEITHASOL

- 8.1 Mae CSYM yn disgwyl ymrwymiad cadarn gan National Grid i ddefnyddio gweithwyr a busnesau lleol i adeiladu a chynnal y prosiect cysylltu fydd yn fudd posibl pwysig. Fodd bynnag, er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon y bydd y buddion hynny yn cael eu gwired, mae angen strategaeth glir a dulliau cyflawni.
- 8.2 Mae gan CSYM bryderon sylweddol hefyd ynglŷn â'r wybodaeth a ddarparwyd hyd yma. Manylir ar bryderon CSYM ynglŷn â lefel y wybodaeth a ddarparwyd hyd yma yn adrannau [croesgyfeirio 18.1.3 ac 18.2.4] Atodiad B ymateb CSYM i'r ymgynghoriad, sef y sylwadau manwl ar y PEIR.
- 8.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn y camau a gymerwyd ganddo hyd yma, dylai NG ddatblygu ac ymgynghori ar strategaethau drafft fyddai'n cyflawni'r eitemau a nodir ym mharagraffau [croesgyfeirio 18.1.4 ac 18.2.5] Atodiad B ymateb CSYM i'r ymgynghoriad, sef y sylwadau manwl ar y PEIR.
- 8.4 Bydd angen rhaglen o ymgysylltu â CSYM ar frys er mwyn canfod pryd fydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu, pryd fydd y strategaethau hynny yn cael eu cynnig, pryd fyddir yn ymgynghori ac yn cytuno arnynt, a sut fydd y strategaethau hynny yn cael eu sicrhau a'u cyflawni o dan y GCD arfaethedig.

9.0 TWRISTIAETH

- 9.1 Twristiaeth yw sector mwyaf economi Ynys Môn ac mae'n cynhyrchu dros £270 miliwn i'r economi leol bob blwyddyn, mae'n denu dros 1.6 miliwn o ymwelwyr ac mae'n gyflogwr sylweddol sy'n cynnal dros 4,000 o swyddi. O ystyried pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol, nid yw CSYM yn credu yr ystyriwyd twristiaeth yn ddigon trylwyr.
- 9.2 Mae CSYM yn cydnabod bod Arolwg Twristiaeth wedi cael ei gynnal ac ar hyn o bryd mae'n disgwyl am y canlyniadau a'r dadansoddiad i fod yn dystiolaeth. Fodd bynnag, yn nogfennau'r ymgynghoriad mae'n ymddangos bod nifer o faterion sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn seiliedig ar dybiaethau yn hytrach nag ar ddata amrwd. Mae CSYM yn credu y cyflwynwyd y rhain yn rhy gynnar a bod angen cynnal asesiad priodol er mwyn mesur eu cydnethedd. Yn gyffredinol, gwybodaeth gyfyngedig a geir am effeithiau ar dwristiaeth a mesurau lliniaru. Nid yw maint yr effeithiau ar y sector twristiaeth yn glir, ac mae CSYM yn gofyn am fwy o ddadansoddi yn y meysydd canlynol:
- gweithgaredd ymwelwyr;
 - cynnyrch a bwyd lleol;
 - effeithiau ar westai;
 - effeithiau anuniongyrchol;
 - effeithiau cronnol / ehangach
- 9.3 Pryderir y gallai'r seilwaith (peilonau, is-orsafoedd, llinellau uwch ben, a'r prif dŷ pen twnnel ar gyfer Afon Menai) effeithio'n negyddol ar y tirlun, yr amwynder a'r hyn a gynigir i dwristiaid. O safbwyt twristiaeth byddai hynny yn arwain at lai o ymwelwyr, ymddygiadau, refeniw, a byddai hynny felly'n effeithio'n negyddol ar yr economi, cyflogaeth a ffyniant lleol.
- 9.4 Gwybodaeth gyfyngedig a geir am sut fyddir yn cael mynediad i dŷ pen twnnel croesfan Afon Menai, a pha effeithiau fydd hynny'n ei achosi ar aneddiadau Llanfairpwll a Llanddaniel, ac effeithiau eilaidd posibl ar yr A4080 sy'n arwain at Blas Newydd ac sy'n un o'r prif ffyrdd i Niwbwrch (rhai o'n hatyniadau ymwelwyr prysuraf a mwyaf poblogaidd). Mynegwyd pryderon penodol hefyd mewn perthynas â pheilonau a gwifrau yn agos i'r A55 oherwydd gallent effeithio'n niweidiol ar ddelwedd Ynys Môn i ymwelwyr crwydrol sy'n teithio ar draws yr Ynys i/o borthladd Caergybi er mwyn teithio ymlaen neu o longau mordeithiau sy'n ymweld â'r ardal.
- 9.5 Mae cynnal a gwella'r hyn mae twristiaeth yn ei gynnig yn ystod proses adeiladu'r prosiect yn hollbwysig. Mae CSYM yn disgwyl y bydd yr effeithiau posibl ar ddelwedd yr Ynys a'r canfyddiad ohoni yn ystod y camau adeiladu a gweithredu yn cael eu hystyried yn llawn, a bod mesurau lliniaru yn cael eu darparu er mwyn goresgyn effeithiau niweidiol. [croesgyfeirio 18.3.3] Atodiad B ymateb CSYM i'r ymgynghoriad, sef y sylwadau manwl ar y PEIR.

- 9.6 Mae Cynllun Rheoli Cychfan CSYM 2016-2020 yn rhoi argymhellion clir mewn perthynas â'r prif brosiectau ynni a'r seilwaith strategol, ac mae'n allweddol bod yr argymhellion hynny yn cael eu hystyried.
- 9.7 Bydd prosiect NG yn effeithio'n sylweddol ar Lwybr Arfordir Cymru a'r AHNE. [croesgyfeirio 18.3.3] Atodiad B ymateb CSYM i'r ymgynghoriad, sef y sylwadau manwl ar y PEIR. Bydd yna golled arwyddocaol i ansawdd gweledol o safbwyt defnyddwyr llwybr yr arfordir, trigolion lleol ac ymwelwyr. Mae llwybr arfordir Ynys Môn yn denu dros 330,000 o gerddwyr bob blwyddyn oherwydd y tawelwch a'r golygfeydd sydd heb eu difetha. Mae'r PEIR yn cyfeirio at lwybr yr arfordir o gwmpas Wylfa a Faenol. Mae'n hollbwysig bod llwybr yr arfordir o gwmpas Ynys Môn, ac yn arbennig ger Afon Menai yn cael ei gynnwys a'i gwmpasu yn y DA.
- 9.8 Er mwyn mynd i'r afael â diffyg data gwaelodlin perthnasol, dylai NG:
- ddarparu canlyniadau'r Arolwg Twristiaeth i CSYM a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r tybiaethau tanategol y mae'r PEIR yn seiliedig arnynt er mwyn hysbysu'r asesiad o'r effeithiau; a
 - gwneud mwy o waith i ganfod meysydd y byddir yn effeithio'n arwyddocaol arnynt a chanfod cysylltiadau rhwng problemau a meysydd y byddir yn effeithio arnynt fel sail ar gyfer datblygu cynigion lliniaru ymatebol a realistic mewn ymgynghoriad â CSYM.
- 9.9 Ar ôl casgl data gwaelodlin digonol, a chytuno ar ei gynnwys â CSYM, dylai NG ymgysylltu â CSYM er mwyn clustnodi cyfres o fesurau lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol fydd yn deillio o adeiladu a gweithredu'r prosiect yn unol â pholisïau cynllunio perthnasol. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys:
- Tanddaearu ychwanegol er mwyn lleihau effeithiau'r prosiect ar dderbynyddion twristiaeth ar Ynys Môn.
 - Adnoddau i gynnal arolygon rheolaidd gydag ymwelwyr er mwyn mesur effeithiau ac addasu mesurau lliniaru wrth i waith adeiladu'r datblygiad fyd rhagddo;
 - Darparu adnodd marchnata a Hyrwyddo er mwyn lliniaru yn erbyn colli ymwelwyr ac incwm cysylltiedig yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu;
 - Pan effeithir ar hawliau tramwyo, cilffyrdd a llwybrau seiclo gan y datblygiad, dylid cynllunio llwybrau amgen a dylid eu hyrwyddo ymysg trigolion ac ymwelwyr er mwyn annog teithio drwy ddulliau cynaliadwy; a
 - Phan fo dinistrio coed a blannwyd/coetir yn digwydd, dylid cynnal cyfres o blannu ymlaen llaw er mwyn sicrhau mai cyfyngedig fydd yr effaith.
- 9.10 Bydd angen rhaglen o ymgysylltu â CSYM ar frys er mwyn canfod pryd fydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu, pryd fydd newidiadau i'r dyluniad neu fesurau lliniaru yn cael eu cynnig, pryd fyddir yn ymgynghori ac yn cytuno arnynt, a sut fydd y mesurau hynny yn cael eu sicrhau a'u cyflawni o dan y GCD arfaethedig.

10.0 TRAFFIG A THRAFNIDIAETH

- 10.1 Mae CSYM yn disgyl y bydd mwy o ymgynghori â National Grid er mwyn mireinio llwybr y gwaith adeiladu. Awgrymwyd addasiadau i lwybrau cerbydau gan CSYM ar ymweliad â'r safle gyda National Grid ar 14/10/2016.
- 10.2 Mae gan CSYM bryderon sylweddol yn ynglŷn â lefel y wybodaeth a ddarparwyd hyd yma a'r mesurau dylunio a gynigiwyd gan NG er mwyn lleihau effeithiau'r prosiect, neu gynigion lliniaru eraill. Ceir manylion llawn am y rhain yn yr adolygiad o'r PEIR a atodir i'r adroddiad hwn, ac mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r gofynion allweddol.
- 10.3 Dylai NG ddarparu'r wybodaeth ganlynol, neu gymryd y camau canlynol, er mwyn galluogi cynnal asesiad cywir:
- cyflwyno a chytuno â CSYM ar fethodoleg asesu briodol ar gyfer asesu effeithiau traffig a thrafnidiaeth y prosiect. Mae'n allweddol bod methodoleg ddigonol yn cael ei darparu heb oedi;
 - ymgysylltu â CSYM er mwyn darparu Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu diwygiedig sy'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gan CSYM yn y cynllun a ddarparwyd hyd yma;
 - nodi mesurau er mwyn lleihau effaith y compownd terfyn selio a lleoliad y tŷ pen twnnel arfaethedig ger Braint;
 - delio â phryderon ynglŷn â lleoliad arfaethedig y compownd adeiladu dros dro;
 - rhoi ystyriaeth lawn i effeithiau'r prosiect, ynghyd â Wylfa Newydd, ar Bont Britannia a chanfod a ellid delio â hynny drwy ddarparu trydedd bont fyddai'n cynnwys y ceblau;
 - asesu a darparu ar gyfer effeithiau ar hawliau tramwyo cyhoeddus yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect;
 - gwneud addasiadau priodol i'r dyluniad er mwyn lleihau'r effeithiau ar ddefnyddwyr hawliau tramwyo cyhoeddus yn ystod cam gweithredu'r prosiect.
- 10.4 Bydd angen rhaglen o ymgysylltu â CSYM ar frys er mwyn canfod pryd fydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu, pryd fydd newidiadau i'r dyluniad neu fesurau lliniaru yn cael eu cynnig, pryd fyddir yn ymgynghori ac yn cytuno arnynt, a sut fydd y mesurau hynny yn cael eu sicrhau a'u cyflawni o dan y GCD arfaethedig.

11.0 EFFEITHIAU CRONNUS

- 11.1 Roedd effeithiau cronus yn un o'r prif faterion yr adroddwyd amdani yn ymateb CSYM i Ymgynghoriad Cam 2 anstatudol National Grid (Rhagfyr 2015). Cyfeiriwyd at oblygiadau llinell uwch ben newydd ochr yn ochr â'r llinell bresennol; effeithiau ar gymunedau; ymgysylltu cynnar â National Grid ynglŷn â 'strategaeth haenog' ar gyfer lliniaru a rheoli effeithiau posibl; ac ymrwymiad i gynllun o Liniaru Effeithiau ar y Gymuned.

- 11.2 Hyd yma, ni ymgynghorwyd ar effeithiau mewn-brosiect a rhyng-brosiect nac ar fethodoleg glir a chydlynol ar gyfer asesu effeithiau o'r fath, ac argymhellir bod National Grid yn ymgysylltu â CSYM cyn gynted â phosibl.
- 11.3 Yn y dogfennau a.42, ac yn benodol wrth gyfeirio at benodau PEIR, mae'r asesiad o effeithiau mewn-brosiect yn annigonol ac mae angen mwy o asesu. Mae CSYM wedi mynegi nifer o bryderon mewn perthynas â'r fethodoleg a chanlyniadau'r asesiad cychwynnol a gyflwynwyd, sydd ar hyn o bryd yn brin o dystiolaeth. Mae'r datganiad na chanfuwyd dim effeithiau sylweddol fyddai angen eu lliniaru yn brin o dystiolaeth ategol. Mae CSYM yn credu y bydd angen mwy o liniaru, yn arbennig o ystyried effeithiau mewn-brosiect ar dderbynyddion lleol sy'n gysylltiedig ag aflonyddwch fydd yn deillio o waith adeiladu (sŵn, ansawdd aer, safleoedd cadwraeth natur dynodedig, ac effeithiau ar amwynderau a defnyddwyr PRoW etc.) Mae'r lleoliadau a'r dull o asesu effeithiau ar amwynderau yn amwys, ac mae'n cyfeirio at benodau asesu unigol heb ffurfio unrhyw gasgliadau ynglŷn ag effeithiau mewn-brosiect a chymdeithasol economaidd. Ychydig iawn o asesu effeithiau mewn-brosiect a wneir yn ystod y cam adeiladu er mwyn ategu'r casgliadau a nodir gan National Grid. Mae sicrhau mwy o ymgynghori, yn cynnwys deilliannau asesu drafft a chynigion lliniaru, drwy gyfrwng datganiad dull a Gofyniad yn hanfodol.
- 11.4 Mae CSYM yn credu ei bod yn hanfodol bod National Grid yn rhoi ystyriaeth lawn i effeithiau o un pen i'r llall yr aliniad llwybr arfaethedig, fel y rhoddir sylwadau ar hynny mewn perthynas â'r PEIR. Mae angen mwy o waith fel rhan o broses yr AEA er mwyn sicrhau bod effeithiau mewn-brosiect ar draws disgylblaethau ac adrannau daearyddol y llwybr yn cael eu gwerthuso'n llawn.

- 11.5 Ar gyfer effeithiau rhyng-brosiect cronus, mae Tabl 18.4 yn cynnwys asesiadau sylfaenol o'r effeithiau, fodd bynnag mae CSYM yn credu bod y casgliadau a ffurfiwyd yn brin o dystiolaeth gadarn ar hyn o bryd o ganlyniad i lefel aeddfedrwydd yr asesiad AEA. Felly, mae'n rhaid i'r asesiad cronus yn y bennod hon gael ei adolygu a dylai fod yn destun mwy o ymgynghori. Nodir yr adroddir ar y casgliadau allweddol yn y penodau asesu unigol yn hytrach nag ym Mhennod 19. Mae CSYM yn credu bod croesgyfeirio yn hanfodol.

12.0 IECHYD, LLESIANT A CHYDLYNIAD CYMUNEDOL

- 12.1 Mae llesiant yn thema eang a holl gynhwysfawr a dylid ei hadlewyrchu felly wrth ystyried effeithiau a lliniaru mewn perthynas â phrosiect Cysylltu Gogledd Cymru drwyddo draw. Mae gan lesiant statws statudol yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gosod dyletswyddau i feddwl am yr hirdymor, gweithio'n well â phobl a chymunedau, ceisio atal problemau a defnyddio dull cydgysylltiedig. Ceir 7 Nod Llesiant Cenedlaethol sy'n tanategu'r disgwyliadau Llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cwrdd heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Mae'r ddeddfwriaeth yn sylfaen ar

gyfer y penderfyniadau a wneir gan CSYM a chyrrf cyhoeddus eraill sy'n rhanddeiliaid ym mhrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Nid yw dogfennau'r ymgynghoriad yn adlewyrchu llesiant fel thema eang, holl gynhwysfawr sydd â statws statudol yng Nghymru.

- 12.2 Mae CSYM yn disgwl y bydd Llesiant yn cael ei drin yn y modd hwnnw, ac y bydd yn tanategu'r ystyriaeth a roddir i effeithiau a mesurau lliniaru pob agwedd o'r prosiect, ac mae'r Cyngor yn disgwl i NG ailymweld â'r agwedd hon cyn cyflwyno'r cais GCD.
- 12.3 Roedd iechyd yn un o'r prif themâu yr adroddwyd arni yn ymateb CSYM i Ymgynghoriad Cam 2 anstatudol National Grid (Rhagfyr 2015). Adroddodd CSYM '*Mae'r Cyngor yn gobeithio bydd National Grid yn darparu Asesiad o'r Effaith ar lechyd, p'un a ystyriod bod hynny'n ofyniad statudol neu beidio. Ystyriod bod hyn y allweddol er mwyn lleddfu gwir bryderon ymmsg y cyhoedd, ac er mwyn cydymffurfio ag ysbryd Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*
- 12.4 Mae CSYM y disgwl, fel y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei Farn Cwmpasu (Gorffennaf 2016) mewn perthynas â Meysydd Trydanol a Magnetig (EMFau), i'r cynigion gynnwys dogfen EMF ar wahân gyda'r cais GCD fydd yn bodloni gofynion NPS EN-5 ac yn cynnwys gwerthusiadau o'r EMFau fyddai'n cael eu cynhyrchu. Dylai'r ddogfen honno ystyried y llinell drawsyrru uwch ben ac unrhyw geblau fydd yn cael eu tanddaearu, a dylai ystyried canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Ymbelydredd nad yw'n Ioneiddio (1998), fel y nodir hynny yn NPS EN-5.
- 12.5 Ni roddir unrhyw arwydd yn nogfennau'r ymgynghoriad o sut y rhoddir ystyriaeth i lesiant. Dylid ystyried deilliannau gweithdy diweddar National Grid (ar ôl cytuno arnynt) wrth symud ymlaen. Mae'n rhaid i AEA terfynol y cynllun asesu effeithiau ehangach y prosiect ar iechyd a llesiant. Bydd hynny'n arbennig o bwysig wrth ystyried effeithiau posibl ar iechyd o ganlyniad i effeithiau mewn-brosiect yn ystod y cam adeiladu mewn perthynas ag ansawdd aer, traffig ac afonyddwch sŵn. Dylid cytuno ar fethodoleg gydag ymgylgorion perthnasol (yn cynnwys CSYM) cyn cynnal y HIA.
- 12.6 Mae diogelu, ffordd o fyw ac ymddygiadau yn faterion sy'n achosi pryder sylweddol a byddant yn effeithio ar gydlyniaid cymunedol mewn cymunedau lleol, ac mae'n siomedig nad yw National Grid wedi cydnabod pwysigrwydd sicrhau trefniadau diogelu cydnerth. Mae CSYM yn credu bod y nod o greu Ynys o gymunedau cydlynol yn hanfodol, a dylai creu cymunedau mwy diogel drwy gydweithio â'r Heddlu a gwasanaethau Golau Glas eraill a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol fod yn greiddiol. Cynigir bod hyn cael ei darfod gyda CSYM a'i bartneriaid Llesiant.

13.0 YMGYNGHORI

- 13.1 Mae'r PEIR yn darparu'r data mwyaf diweddar ar gyfer darparu sylwadau technegol arno. Er bod peth o'r manylion dylunio newydd wedi cael ei rannu â CSYM mewn gweithdai rhanddeiliaid, dyma'r tro cyntaf y gofynnwyd i randdeiliaid roi sylwadau ar yr Adroddiad Dewis Opsiwn Llwybr a Ffafrir

(Adroddiad PROS), yr Adroddiad Alinio Llwybr Drafft (Adroddiad DRA) a'r Adroddiad Croesi Afon Menai (Adroddiad MSC). Mae pob adroddiad yn dechnegol iawn eu natur ac maent yn rhan o swp sylweddol o ddeunydd yr ymgynghorwyd arno yn ystod y cyfnod ymgynghori a.42. Felly, mae'r sylwadau a roddir yn ystod y cyfnod hwnnw yn cael eu rhoi heb ragfarn mewn perthynas â sylwadau ychwanegol a wneir gan CSYM maes o law, wrth i ddealltwriaeth o'r prosiect wella, yn benodol mewn perthynas â'r ymgynghori parhaus angenrheidiol ar yr AEA anghyflawn.

- 13.2 Hefyd, dylai National Grid ystyried sut y bydd cymunedau lleol yn cael cyfle i ymgysylltu'n ddigonol â gwybodaeth gymhleth a manwl iawn mewn perthynas â phenderfyniadau allweddol yn eu hardaloedd lleol ynglŷn â dyluniad. Nid yw CSYM yn ymwybodol o unrhyw gyfleoedd blaenorol i gymunedau neu randdeiliaid ehangach ymgysylltu ynglŷn â lleoliadau arfaethedig y Compowndau Terfyn Selio, Tai Pen Twnnel a'r Compowndau Adeiladu cyn dewis y lleoliadau a ffafrir y penderfynwyd arnynt gan National Grid ac a gyflwynir yn y casgliad o ddogfennau ymgynghori Adran 42.
- 13.3 Mae CSYM yn ymwybodol iawn mai dyma'r tro cyntaf i leoliadau arfaethedig compowndau adeiladu fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Nid yw'r ardaloedd chwilio eang a nodwyd yn Adran 9.5 Adroddiad DRA wedi bod yn destun ymgynghoriad cyn hyn. Mae diffyg methodoleg asesu diffiniedig yn y Gwerthusiad Opsiynau a gyflwynir yn Nhabl 9.1, ac nid yw'n gyson â'r ymagwedd a gyflwynir yn y PEIR. Mae angen mwy o asesu ansoddol a thystiolaeth er mwyn cyfiawnhau lleoliadau'r compowndau, yn arbennig o ran effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â symudiadau traffig i'r safle.
- 13.4 Mae'r Adroddiad DRA a'r Adroddiad MSC yn darparu trosolwg o'r broses ddylunio hyd yma ac yn cynnwys sylwadau ynglŷn â sylwadau rhanddeiliaid a ddefnyddiwyd i hysbysu aliniad y llwybr. Mae pwrrpas y dogfennau hyn a'r berthynas â phroses y Gwerthusiad Opsiynau yn amwys. Er eu bod yn darparu sylwadau ynglŷn â Gwerthusiad Opsiynau'r Prosiect, ni nodwyd methodoleg glir a chyson ar gyfer asesu pob opsiwn, ac mae'n anodd deall y dilyniant rhesymegol a gymhwyswyd i benderfyniadau allweddol ynglŷn â'r dyluniad. Nid yw'n amlwg sut mae arwyddocâd effeithiau o dan bob testun a geir yn yr asesiad wedi cael eu hystyried mewn ffordd gytbwys a thryloyw. Mae National Grid wedi crynhoi gwaith a wnaethpwyd hyd yma rhwng y cyfnodau ymgynghori, yn cynnwys ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid. Mae Adran 2.5.2 Adroddiad DRA yn nodi nad yw adborth o'r sesiynau hyn wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad. Byddai cynnwys yr adborth yma fel Atodiad wedi bod yn fuddiol o ran tryloywder.
- 13.5 Er y cydnabyddir y gwahaniaeth yng nghymeriad yr effeithiau ar draws Adrannau A-D a gyflwynir yn yr Adroddiad DRA ac yn Adrannau E-F y Llwybr yn yr Adroddiad MSC, mae'r strwythur, cynnwys a'r ymagwedd a nodir ym mhob adroddiad yn wahanol iawn, ac mae hynny'n golygu bod y dogfennau yn anodd iawn eu deall gyda'i gilydd. I ddechrau, byddai'n fuddiol petair cynnwys polisi a'r sylwadau cyd-destunol wedi cael eu halinio ar draws yr holl adroddiadau, neu wedi cael eu croesgyfeirio er mwyn osgoi ailadrodd a galluogi

CSYM i gynnal dadansoddiad ystyrlon o'r bylchau yn yr ymagwedd a ddefnyddiwyd gan National Grid.

13.6 Hefyd, mae'r ddogfen Achos Angen yn dechnegol iawn ac nid yw'n hygrych iawn at ddibenion ymgynghori ehangach â rhanddeiliaid. Mae'n hanfodol yr ymgynghorir â CSYM ar adroddiad Achos Angen ac Adroddiad Opsiynau Strategol (SOR) diweddar cyn cyflwyno'r cais GCD. O ystyried pwysigrwydd sylfaenol y dogfennau hyn o ran tanategu'r cais GCD, credir ei bod yn hanfodol bod y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach yn cael cyfle i roi sylwadau ar unrhyw ddiweddariadau.

DRAFT

**YMATEB I YMGYNGHORIAD AR YR ADRODDIAD GWYBODAETH
AMGYLCHEDDOL RAGARWEINIOL (PEIR)**

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Ar 5 Hydref 2016 agorodd National Grid Electricity Transmission plc (National Grid) ei ymgynghoriad statudol o dan adrannau 42 a 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 ar gyfer Prosiect Cysylltu Gogledd Cymru (y prosiect).
- 1.2 Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys nifer sylweddol o ddogfennau sydd gyda'i gilydd yn rhoi gwybodaeth am y prosiect, ei esblygiad hyd yma a'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol).
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ymateb Cyngor Sir Ynys Môn (Cyngor Môn) i un o'r dogfennau ymgynghori, sef yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) a'i atodiadau cysylltiedig.

2.0 RÔL GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL RAGARWEINIOL

- 2.1 Mae PEIR yn cyflwyno gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol (PEI) yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (EIA) (Diwygio) 2011 a 2012) ('Rheoliadau EIA 2009').
- 2.2 Bwriad y PEIR yw cyflwyno gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol am effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl y prosiect arfaethedig, fel sy'n hysbys yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno / dylunio. Mae'n cyflwyno canfyddiadau cynnar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) sydd heb ei gwblhau eto ac mae'n rhoi syniad a yw'r effeithiau amgylcheddol a ganfuwyd yn debygol neu'n annhebygol o fod yn arwyddocaol ac, os yn bosibl beth yw graddfa'r arwyddocâd.

3.0 STRWYTHUR Y DDOGfen HON

- 3.1 Mae sylwadau Cyngor Môn yn seiliedig ar yr wybodaeth a geir yn y PEIR a'i Atodiadau. Mae ymateb Cyngor Môn i benodau unigol y PEIR yn dilyn yr un drefn â'r penodau yn y PEIR.

4.0 STRWYTHUR A CHYFLWYNO'R PEIR

- 4.1 Mae'r gyfres o ddogfennau PEIR a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad S42 yn fawr ac i helpu i ganfod eich ffordd trwy'r dogfennau copi caled byddai tudalen gynnwys ar ddechrau pob dogfen i ddangos penawdau / rhifau penodau wedi bod yn fuddiol, neu dabiau wedi'u mewnosod ar ddechrau pob pennod.

5.0 SYLWADAU CYFFREDINOL

- 5.1 Dywed National Grid '*Mae canlyniadau'r asesiad a gyflwynir fel rhan o'r PEIR yn seiliedig i ryw raddau ar farn broffesiynol, ac nid oes asesiad gwaelodlin wedi'i gwblhau eto.* Dywed National Grid nad yw'r '*mesurau lliniaru i gyd wedi cael ei diffinio na'u dylunio*'.
- 5.2 Mae Cyngor Môn yn cydnabod mai gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol (hy. nid yw'n EIA terfynol) sydd yn y PEIR, foddy bynnag, mae'r Cyngor yn teimlo lle na fu'n bosibl i National Grid gwblhau asesiad ansoddol o'r effeithiau a ragwelir bod hynny'n golygu bod gallu Cyngor Môn i fynegi barn ar ganlyniadau asesiad ac i wneud sylw ar ddyluniad y prosiect wedi'i gyfyngu.
- 5.3 Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd National Grid yn cynnal ymgynghoriad pellach ar ganlyniadau'r EIA, y Datganiad Amgylcheddol (ES) drafft, a'r cynlluniau rheoli cysylltiedig wrth iddynt ddod i'r amlwg cyn cyflwyno'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO).
- 5.4 Yn Adroddiadau Aliniad y Llwybr Drafft (DRA) a Chroesfan Afon Menai (MSC) National Grid ychydig o fanylion a gafwyd am y mesurau dylunio sydd wedi'u hymgorffori yn y datblygiad arfaethedig i osgoi neu leihau effeithiau yn eu tarddle. Fel y mae'r Cyngor wedi'i argymhell yn gyson yn ystod pob cam o'r ymgynghoriad y dylid cael dogfen sy'n amlinellu'r dull dylunio neu bennod yn yr ES i gyd-fynd â'r ES sy'n disgrifio ym mha ffordd mae'r seilwaith wedi cael ei ddylunio i leihau effeithiau andwyol. Dylid cynnwys gwybodaeth fwy manwl a phan yn berthnasol dylid croesgyfeirio at y ddogfen sy'n amlinellu'r dull dylunio o'r penodau pwnc penodol.
- 5.5 Noda'r Cyngor hefyd nad yw'r PEIR yn cynnwys y cynigion manwl y byddai eu hangen i lliniaru effeithiau'r datblygiad arfaethedig. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd National Grid yn ymgynghori ar y mesurau lliniaru gofynnol wrth i'r prosiect esblygu ac y bydd yn cynhyrchu strategaeth lliniaru fanwl a dull i olrhain y mesurau lliniaru.
- 5.6 O ran yr agweddau ar adeiladu, mae'r Cyngor yn awgrymu y dylai'r rhain gael eu cofnodi yn y Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylcheddol (CEMP). Mae'r CEMP yr ymgynghorir arno yn nogfennau'r PEIR yn amlinellu'r ymrwymiadau lliniaru cyffredinol a geir yn ystod y cam adeiladu. Y mesurau a nodir yw'r arferion gorau generig a dylent gael eu hategu gan fesurau sy'n benodol i'r prosiect yn unol â chanfyddiadau'r EIA. Fel y nododd Cyngor Môn yn ei ymateb cwmpasu dyddiedig Mai 2016, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y CEMP yn ddogfen fyw, ac yr ymgynghorir arni ac y bydd yn cael ei diweddar u'n ôl yr angen. Dylid sicrhau'r CEMP a mesurau lliniaru cysylltiedig trwy gyfrwng gofyniad yn y DCO.
- 5.7 I osgoi unrhyw amheuaeth mae sylwadau'r Cyngor ym mharagraffau 5.1-5.5 yn berthnasol i'r asesiad ym mhob pennod o'r PEIR.

6.0 CYDSYNIO (Pennod 2-5 a thrwy gydol y PEIR)

- 6.1 Mae sylwadau Cyngor Môn ar strategaeth gydsynio National Grid yn cael sylw yn Atodiad A Adroddiad Strategaeth i adroddiad ymgynghori adran 42 Cyngor Môn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor am nodi bod y diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gyfrif fel y datblygiad arfaethedig a'r gwaith ehangach yn achosi pryderon ynglŷn â gallu National Grid i gynnal asesiad cronus effeithiol.
- 6.2 Mae'r DCO a gyflwynir yn awr yn cynnwys yr uwchraddio sydd ei angen rhwng Wylfa a Phentir, yn hytrach na Phrosiect Cysylltu Gogledd Cymru gan gynnwys y gwaith ehangach yng Ngwynedd. Noda Cyngor Môn na chafwyd strategaeth gydsynio ar gyfer holl elfennau'r prosiect, gan gynnwys Datblygiadau Cysylltiedig a Gwaith Ehangach, hyd yma. Gofynnwyd am hyn mewn ymateb i Gwmpasu, ond nid yw wedi'i gynnwys yn Adran 42 o'r deunydd Ymgynghori. Bydd angen i'r ES a'r dogfennau technegol ategol ehangach amlinellu dull eglur a diamwys i asesu holl elfennau'r prosiect ehangach o fewn yr asesiad i effeithiau cydberthnasol a chronnol.

7.0 ADEILADU, GWEITHREDU, CYNNAL A DATGOMISIYNU'R PROSIECT ARFAETHEDIG (Pennod 4)

- 7.1 Ym mharagraff 2.4.6 dywed National Grid fod dau brif ddull y gellid eu defnyddio i adeiladu twneli; peiriant tyllu twneli (TBM) a leinin cylchrannol wedi'i gastio'n barod, neu dyllu â dril a chwythu neu beiriant 'header' ac sydd wedi'i leinio â leinin concrit wedi'i chwistrellu (SCL). Byddai'n help pe bai National Grid yn egluro'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â phob technoleg a gynigir. Dylid ymgynghori â Chyngor Môn ar ddatganiad dull ar gyfer cynigion ar gyfer gwaith adfer.
- 7.2 Dywed National Grid '*Byddai angen gwaredu sbwriel, naill ai oddi ar y safle, a fyddai'n golygu'r angen am nifer o symudiadau loriau , neu ar y safle, trwy greu twmpathau.*' Dywed National Grid ei bod yn bosibl y bydd angen Gweithfeydd Ynni, ond nid yw wedi asesu effeithiau hynny.
- 7.3 Mae angen diffiniad pellach o drin gwastraff, gan gynnwys faint fydd yn cael ei gynhyrchu, cynigion i'w aildefnyddio neu ei waredu a symudiadau trafnidiaeth cysylltiedig a'r effeithiau ar gymunedau lleol. Mae angen rhagor o wybodaeth yn yr adolygiad hwn ar effeithiau trafnidiaeth, sŵn ac ansawdd yr aer sy'n gysylltiedig â gwaredu pridd.
- 7.4 Gall effeithiau o fewn y prosiect godi yn sgil trin gwastraff; er enghraifft os byddai cynigion i ddefnyddio'r gwastraff i dirlunio, a allai gael effeithiau economaidd gymdeithasol a hamdden cysylltiedig ychwanegol. Mae angen asesu ymhellach yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu twneli a'r gwastraff a gynhyrchid.
- 7.5 Dylai'r CEMP drafft gynnwys mesurau lliniaru sŵn ac ansawdd yr aer ar gyfer y Gweithfeydd Ynni'n benodol.

Tudalen 3 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

7.6 Dywed National Grid '*Bydd Cynllun Rheoli Deunyddiau (MMP) yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod gwastraff yn cael ei gynhyrchu ar y safle lansio yn ystod y gwaith i gloddio'r yn cael ei symud mewn ffordd briodol o'r safle'* Mae paratoi'r MMP yn rhywbeth i'w groesawu ac mae Cyngor Môn yn gofyn iddynt gael eu cynnwys mewn ymgynghoriad ar y ddogfen allweddol hon cyn gwneud cais am y DCO.

8.0 DULL A METHODOLEG Y PEIR (Pennod 5)

- 8.1 Ym Mhennod 5 dywed National Grid '*nid yw'r mesurau lliniaru i gyd wedi cael ei diffinio na'u dylunio*'. Mae'r diffiniad o fesurau lliniaru'n gyfyngedig ac nid yw'n cynnwys y cwmpas posibl ar gyfer mesurau iawndal a chyfleoedd gwella.
- 8.2 Mae'n hanfodol bod mesurau lliniaru manwl yn destun ymgynghori cyn cyflwyno'r cais DCO. Dylid ehangu Pennod 5 i egluro rôl bosibl lliniaru oddi ar y safle, a chyfleoedd gwella a all fod yn agweddau pwysig ar esblygiad dyluniad y prosiect. Dywed National Grid '*Defnyddir mesurau iawndal os na ellir gweithredu'r mesurau lliniaru uchod am ryw reswm*'. Nid yw hyn yn cydnabod iawndal na gwella i gyflawni budd ehangach, fel enillion net bioamrywiaeth. Disgwylid trafodaethau pellach i sicrhau cyfleoedd lliniaru, gwella ac iawndal yn sgil gofynion ac ymrwymiadau.
- 8.3 Nid yw'n amlwg sut y bydd ystyriaeth i iechyd a llesiant, gan gynnwys gweithdai diweddar National Grid ar yr Asesiad Llesiant yn cael ei integreiddio yn yr EIA, nac yn cael ei gynnwys i ategu'r cais am DCO. Mae'r diffyg manylion yn nogfennau Ymgynghori adran 42 yn achos pryder i Gyngor Môn. Dylid cynnwys cyfeiriad yn yr EIA at yr asesiad o effeithiau ehangach y prosiect ar iechyd wrth ystyried effeithiau posibl ar iechyd sy'n gysylltiedig, er enghraifft ag effeithiau o fewn y prosiect yn ystod adeiladu ar ansawdd yr aer, traffig a sŵn.

9.0 ASESIAD TIRWEDD A GWELEDOL

9.1 Mae'r PEIR yn cyflwyno Penodau ar effeithiau ar y Dirwedd a derbynnyddion Gweledol ar wahân; fod bynnag, oherwydd y cydberthynas agos rhwng y ddwy bennod rydym wedi'u cyfuno yn yr ymateb hwn.

9.2 LLINIARU ODDI AR Y SAFLE (Penodau 6 a 7 ac yn berthnasol hefyd i Benodau 8 a 9)

9.2.1 Oherwydd natur y datblygiad arfaethedig h.y. mae'n cynnwys seilwaith uchel, nid yw'n debygol y bydd lliniaru eilaidd ar y safle'n gwneud llawer i leihau arwyddocâd rhai o'r effeithiau a ragwelir, yn enwedig effeithiau gweledol llinellau uwchben. Felly, rhagwelir y bydd angen mesurau oddi ar y safle i wella'r dirwedd gyfagos ac i sgrinio a / neu wella golygfeydd i gyfeiriad y datblygiad arfaethedig. Rhagwelir hefyd y bydd angen gwaith oddi ar y safle i wella profiad defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus lle na fydd lliniaru ar y safle'n posibl.

- 9.2.2 Dylid paratoi strategaeth blannu a gwella oddi ar y safle a dylid ymgynghori arni cyn gynted â phosibl. Dylai ddisgrifio'r mesurau a gynigir, amlinellu ei diben a chyflwyno'r dulliau a ddefnyddir i'w cynnwys fel rhan o broses y DCO e.e. fel dylunio i lliniaru, gofynion amodau cynllunio ac ymrwymiadau adran 106. Dylai sylwebaeth gynnwys cyfleoedd i blannu ymlaen llaw, tarddiad a chyflenwad stoc plannu.
- 9.2.3 Dechreuodd y broses o gytuno ar gwmpas a chwantwm lliniaru oddi ar y safle ym Mhrosiect Cysylltu Hinkley C gydag Adran 42 a aeth yn ei blaen am gyfnod hir hyd at y Gwrandoiadau Mater Penodol a gynhaliwyd yn ystod yr Archwiliad. Mae'r broses o gytuno â thirfeddianwyr trydydd parti'n debygol o fod yn un faith.

9.3 LLINIARU EILAIDD AR Y SAFLE (Penodau 3, 6 a 7 (hefyd yn berthnasol i Benodau 8 & 9)

- 9.3.1 Nid oes disgrifiad ym Mhennod 3 o'r PEIR nac yn y penodau pwnc eraill o ba fath o lliniaru eilaidd i'r dirwedd a gynigir o fewn terfynau'r gorchymyn i leihau'r effeithiau gweledol ac ar y dirwedd a fydd yn codi o ganlyniad i'r cynllun arfaethedig. Bydd angen i'r mesurau lliniaru hyn fod er enghraifft ar ffurf plannu coed a gwrychoedd yn y mannau hynny a effeithir gan waith adeiladu a hefyd o amgylch unrhyw seilwaith cysylltiedig fel is-orsafoedd, CSEC, Adeiladau Pen Twnnel ac ati.
- 9.3.2 Dylid disgrifio'r mesurau hyn yn y penodau perthnasol a chyflenwi cynlluniau sy'n dangos mesurau arfaethedig gan gynnwys plannu yn lle coed a godwyd yn ogystal â rhai newydd. Dylid ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r wybodaeth hon cyn yr ES terfynol a fydd yn cyd-fynd â'r cais am y DCO i ganiatáu trafodaeth ystyrlon rhwng National Grid a'r ymgylgorion perthnasol. Dylai sylwebaeth gynnwys cyfleoedd i blannu ymlaen llaw, tarddiad a chyflenwad stoc plannu.

9.4 PLANNU COED NEWYDD AR AC ODDI AR Y SAFLE (Penodau 6 a 7. Hefyd yn berthnasol i Benodau 8 a 9)

- 9.4.1 Oherwydd natur y gwaith, bydd yn rhaid codi coed a gwrychoedd wrth adeiladu a gweithredu'r datblygiad arfaethedig.
- 9.4.2 Dylai plannu o'r newydd yn y fan a'r lle fel mesur lliniaru fod yn flaenorïaeth gyntaf. Dylai hyn fod ar ffurf ailblannu coed a gwrychoedd tebyg i'r rhai a gollwyd o fewn terfynau'r gorchymyn. Os oes yn rhaid codi gwrych sydd wedi gordyfu neu res o goed, ond os na ellir plannu rhai newydd yn yr un lle am resymau ymarferol, dylid plannu gwrych neu brysgwydd i adfer y nodwedd linol yn y fan honno.
- 9.4.3 Os na ellir ailblannu gwrychoedd a choed am resymau ymarferol, o fewn terfynau'r gorchymyn, dylid eu plannu oddi ar y safle mor agos â phosibl at y fan lle collwyd y coed. Mae'n debygol y bydd angen cytundeb tirfeddianwyr trydydd parti i wneud hyn. Er mwyn plannu cymaint o goed

Tudalen 5 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

Tudalen 37

newydd â phosibl, cyn belled â bod modd ei gyfrif fel lliniaru, dylai National Grid gael cytundeb tirfeddianwyr cyn gynted â phosibl. Dylai sylwebaeth gynnwys cyfleoedd i blannu ymlaen llaw, tarddiad a chyflenwad stoc plannu.

9.5 ASESIAD O AMWYNDERAU PRESWYL (Penodau 6 a 7. Hefyd yn berthnasol i Benodau 8 a 9 gan gynnwys Pennod 18 – Effeithiau o fewn Prosiectau)

- 9.5.1 Mae Paragraff 8.1.3 o Bennod 7 yn egluro bod y fethodeleg ar gyfer asesu amwynderau preswyl wedi'i chynnwys yn atodiad 5.2 o'r Adroddiad Cwmpasu.
- 9.5.2 Mae Cyngor Môn yn disgwyl yr ymgynghorir â hwy ar yr ES drafft, gan gynnwys canlyniadau'r asesiad a'r mesurau lliniaru priodol. Rhaid cynnwys cyfeiriad at yr asesiad o effeithiau ehangach y prosiect ar iechyd wrth ystyried effeithiau posibl ar iechyd sy'n gysylltiedig ag effeithiau o fewn y prosiect yn ystod y cam adeiladu sy'n gysylltiedig ag ansawdd yr aer, traffig a sŵn, er enghraiftt.

10.0 ECOLEG A CHADWRAETH NATUR (Pennod 8)

10.1 ACA Afon Menai a Bae Conwy

10.1.1 Mae'r PEIR yn cadarnhau bod y bwriad i gael twnnel i groesi Afon Menai'n mynd yn ei flaen; mae hyn felly'n osgoi llawer o effeithiau ecolegol, gan gynnwys rhai a allai effeithio ar yr ACA. Fodd bynnag, mae effeithiau posibl yn parhau sy'n gysylltiedig ag adeiladu twnnel. Heb fesurau lliniaru addas, sy'n cael eu harddangos gan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar lefel prosiect, mae perygl y gallai'r effeithiau hynny gael effaith andwyol ar y safle hwn sydd o bwys rhyngwladol; mae Atodiad 1 yn nodi'r cynefinoedd sy'n bresennol, fel riffiau morol.

10.1.2 Ar hyn o bryd, nid yw'r PEIR yn cynnwys dim mesurau lliniaru manwl ar gyfer yr ACA; ac er bod y PEIR yn datgan bod graddfa'r effeithiau a ragwelir yn isel iawn, nes bydd y cynigion wedi'u datblygu ymhellach ni ellir cadarnhau hyn. Dylid nodi hefyd nad oedd HRA drafft wedi'i gynnwys gyda phecyn gwybodaeth y PEIR. Byddai'r Cyngor yn disgwyl cael drafft o'r ddogfen hon pan fydd ar gael a byddai'n ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y mesurau lliniaru a geir ynddi'n ddigonol. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen asesiad priodol.

10.2 ACA Ffeniau Môn

10.2.1 Mae'r PEIR yn dangos, os na fydd mesurau lliniaru, y gallai ystod o effeithiau andwyol / negyddol ddigwydd i ACA Ffeniau Môn, gan gynnwys colled uniongyrchol i gynefin a newidiadau i hydroleg. Mae arolygon gwaelodlin yn parhau ac nid oes dim canlyniadau manwl wedi'u cyflwyno yn y PIER sy'n galluogi'r risg i gael ei meintioli'n llawn. Heb fesurau lliniaru addas, sy'n cael eu harddangos mewn Asesiad

Tudalen 6 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar lefel prosiect, mae perygl y gallai'r effeithiau hyn gael effaith andwyol arwyddocaol ar y safle hwn ym Môn sydd o bwys rhngwladol.

10.2.2 Yn dilyn sgyrsiau â chynrychiolydd National Grid yn ystod ymweliad â'r safle ar 13 Hydref 2016 deallir fod effeithiau uniongyrchol yn debygol o gael eu cyfyngu i docio coed, ond mae angen cadarnhad o hyn ynghyd â chynigion manwl ar sut y gellir osgoi effeithiau hydrolegol yn ystod adeiladu'r llinell uwchben ger yr ACA. Dylid nodi nad oes HRA drafft wedi'i gynnwys ym mhecyn gwybodaeth y PEIR. Byddai Cyngor Môn yn disgwyl gweld drafft o'r ddogfen hon pan fydd ar gael er mwyn ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i sicrhau bod y mesurau lliniaru a gynigir yn ddigonol. Ni ddylai integredd yr ACA brofi dim effaith negyddol arwyddocaol o ganlyniad i'r prosiect hwn, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad.

10.3 Effeithiau a'r Safleoedd Bywyd Gwyllt Sirol a Chynefinoedd Blaenoriaeth Adran 42

10.3.1 Mae'r PEIR yn nodi amrywiaeth o effeithiau, gan gynnwys colledion uniongyrchol i gynefinoedd, a fydd yn digwydd i Safleoedd Bywyd Gwyllt Sirol (SBGS) a safleoedd blaenoriaeth Adran 42 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) o ganlyniad i'r prosiect arfaethedig. Mae'r Cyngor yn nodi bod arolygon gwaelodlin yn parhau ac nad oes dim canlyniadau manwl wedi'u cyflwyno yn y PEIR i alluogi dadansoddiad llawn o'r effeithiau. Yn niffig mesurau lliniaru addas, mae perygl y byddai cynefinoedd yn cael eu colli a'u diraddio o ganlyniad i'r cynllun ac y byddai hynny'n cael effaith andwyol arwyddocaol ar gynefinoedd pwysig ym Môn.

10.3.2 Dylai'r ES gynnwys canlyniadau gwaelodlin llawn, gan gynnwys cyfrifiadau meintiol o gynefinoedd a fyddai'n cael eu colli / eu diraddio ac a ddylai fod yn sail i'r mesurau lliniaru a gwella a gynigir. Mae Cyngor Môn yn mynnu bod cynefinoedd a gollir o fewn SBGS yn cael eu lliniaru'n ddigonol ac y dylid ystyried gofyn am gyfraniad ariannol gan yr ymgeisydd fel y digwyddodd yn achos Prosiect Cysylltu Hinkley C y National Grid. Rhaid parhau i adolygu hyn wrth i gynigion National Grid ddatblygu.

10.4 Effeithiau ar Rywogaethau a warchodir gan y Gyfraith a Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 42

10.4.1 Mae'r PEIR yn nodi amryw o effeithiau, gan gynnwys marwolaeth ac anafiadau i rywogaethau a all ddigwydd i rywogaethau a warchodir gan y gyfraith fel madfallod cribog, ymlusgiad, moch daear ac ystlumod, ynghyd â rhywogaethau blaenoriaeth Adran 42 (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) o ganlyniad i'r Prosiect hwn. Noda'r Cyngor fod arolygon gwaelodlin yn cael eu cynnal ac nad oes dim canlyniadau manwl wedi'u cyflwyno yn y PEIR i alluogi meintioli llawn. Yn niffig mesurau lliniaru

addas, mae perygl y gallai'r effeithiau hyn gael effaith andwyol arwyddocaol ar boblogaethau pwysig o ffawna yn Ynys Môn.

10.4.2 Dylai'r ES gynnwys canlyniadau gwaelodlin llawn, sy'n cynnwys adroddiadau manwl ar arolygon o ffawna sy'n cael eu cynnal ac a ddylai fod yn sail i'r mesurau lliniaru a gwella a gynigir. Yn benodol, dylai National Grid roi cynigion manwl ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (madfalled cribog mawr ac ystlumod yn benodol a all fod o bwys rhanbarthol) lle mae effeithiau'n cael eu rhagweld ac y bydd angen trwyddedau datblygu..

10.5 Adar yn gwrthdaro yn erbyn llinellau uwchben / strwythurau

10.5.1 Mae'r PEIR yn cynnwys cyfeiriad at y perygl posibl y gallai adar daro yn erbyn gwifrau, yn enwedig Elyrch y Gogledd sy'n gysylltiedig â SoDdGA Llyn Alaw a rhywogaethau eraill y gwlyptiroedd. Noda'r Cyngor fod arolygon gwaelodlin yn cael eu cynnal ac nad oes dim canlyniadau manwl wedi'u cyflwyno yn y PEIR i alluogi dadansoddiad llawn o'r effeithiau. Yn niffyg mesurau lliniaru addas, mae perygl y gallai adar, gan gynnwys rhai o boblogaethau o bwys cenedlaethol sy'n defnyddio cynefinoedd ym Môn yn rheolaidd gael eu heffeithio'n andwyol gan y prosiect.

10.5.2 Dylai'r ES gynnwys canlyniadau gwaelodlin llawn, gan fodelu effeithiau pan yn posibl ac asesu effeithiau os na fydd cyfarpar i ddargyfeirio adar sy'n hedfan oddi wrth llinellau uwchben yn cael ei osod. Os bydd hyn yn awgrymu posibilrwydd o berygl o wrthdrawiadau i rywogaethau allweddol, dylai National Grid fabwysiadu mesurau lliniaru rhagofalus yn unol â'r canllaw diweddaraf (SNH, 2016) a phrotocolau National Grid ar gyfer gosod cyfarpar i ddargyfeirio adar sy'n hedfan i warchod poblogaethau allweddol o adar ym Môn.

11.0 YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (Pennod 9)

11.1 Gwaelodlin (yn gysylltiedig â Phenodau 6 a 7)

11.1.1 Mae'r amodau gwaelodlin yn y PEIR yn seiliedig ar asesiad desg (setiau data sydd ar gael eisoes, ffotograffau o'r awyr, a dadansoddiad LiDAR), ac arolwg ar droed. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon yn rhannol i ddewis lleoliad ar gyfer peilonau a chompowndiau. Fodd bynnag, nid yw'r posibilrwydd bod gweddillion archeolegol pwysig yn bresennol yn y mannau hyn yn hysbys oherwydd diffyg arolygon maes (geoffiseg a thorri ffosydd treial).

11.1.2 Os canfyddir fod gweddillion archeolegol sylweddol yn bresennol, mae National Grid wedi dweud y gallai peilonau gael eu hadleoli i osgoi'r effeithiau hyn; fodd bynnag, gallai hyn gyflwyno gosodiad ac effeithiau LVIA ychwanegol o ganlyniad. Bydd adleoli peilonau'n cael ei gyfngu gan y Terfynau Gwyriad (LoD) y gwnaethpwyd cais amdanynt yn y DCO;

Tudalen 8 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

fodd bynnag, gall symudiad hydredol ar hyd aliniad y llwybr fod yn dderbyniol o fewn y LoD, ond byddai hynny'n amharu ar 'baru' peilonau o safbwyt tirwedd a gweledol. Felly, mae'n hanfodol bod yr arolygon hyn yn cael eu cynnal cyn gynted â phosibl a chyn cyflwyno'r cais am DCO i alluogi effeithiau cyfun i gael eu hystyried, eu hasesu a'u lliniaru'n briodol.

11.1.3 Rhaid cynnal rhaglen o arolygon archeolegol cyn gynted â phosibl, a dylent gynnwys y canlynol:

- arolwg geoffiseg o leoliad pob peilon, y compowndiau arfaethedig a mannau adeiladu cysylltiedig lle bydd angen cloddio (ffyrdd cludo ac ati.)
- Ffosydd treialu lle canfyddir anghysonderau a mannau 'gwag' i nodweddu'r archeoleg ac i brofi effeithiolrwydd yr arolwg geoffiseg.
- Adolygu lleoliad peilonau yn erbyn canfyddiadau'r arolwg; os bydd angen adleoli peilonau ac ailasesu (yr amgylchedd hanesyddol a LVIA). Efallai y bydd angen arolygon ychwanegol ar gyfer y mannau lle adleolir peilonau.
- Adolygu effeithiau mewn mannau adeiladu a chompowndiau ac osgoi effeithiau trwy ddylunio pan yn bosibl. Asesu effeithiau'n dilyn adolygu'r dyluniad, a chynnig mesurau lliniaru.

11.2 Gwaelodlin (Cyffredinol)

11.2.1 Ym mharagraff 1.1.5 o'r PEIR, dywed National Grid mai diben y Bennod yw:

- *Crynhai'r waelodlin amgylchedd hanesyddol;*
- *Canfod yr asedau treftadaeth hynny lle gallai'r Prosiect Arfaethedig o bosibl achosi effeithiau arwyddocaol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu neu datgomisiynu;*
- *Nodi'r mesurau cychwynnol y gellid eu mabwysiadu i lliniaru'r effeithiau hynny;*
- *Ystyried effeithiau gweddilliol ar yr amgylchedd hanesyddol; a*
- *Phenderfynu pa waith arolygu neu ddesg y byddai ei angen o hyd fel rhan o'r EIA ac y byddai'r canlyniadau'n cael eu cynnwys yn yr ES.*

11.2.2 Mae'r waelodlin yn anghyflawn am fod cyn lleied o waith arolygu wedi'i wneud yn yr ardal a'r diffyg gwerthuso asedau a gosodiad hyd yma. Nid yw'r holl asedau hanesyddol sy'n debygol o achosi effeithiau arwyddocaol wedi eu canfod ac mae angen gwneud gwaith gwerthuso pellach ar y rhai hynny a all fod yn arwyddocaol i ganfod eu harwyddocâd a'r effeithiau tebygol arnynt a'u lleoliadau.

11.2.3 Bydd angen gwerthusiad manwl mewn safleoedd lle mae posibilrwydd o effaith andwyol ar leoliad asedau neu ar olygfeydd sy'n edrych allan a achosir gan y llinell arfaethedig fel y bydd yn sail i gwmpas a graddfa unrhyw fesurau lliniaru. Dylai mesurau gwella gael eu hystyried pa bryd

Tudalen 9 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

bynnag y bydd effaith weddilliol heb ei lliniaru, er enghraifft, effaith ar leoliad na fyddai'n briodol i'w liniaru trwy sgrinio, a hefyd lle bynnag mae cyfleoedd i gryfhau cymeriad ased tirwedd neu hanesyddol, i atgyfnerthu ymdeimlad o le neu i symud y pwyslais gweledol i ffwrdd oddi wrth y seilwaith uwchben.

11.2.4 Mae angen bwrw ymlaen â rhaglen o ymchwiliadau archeolegol fesul cam i ganfod pwysigrwydd henebion sydd ar hyn o bryd heb eu dynodi ac a allai fod o Bwys Cenedlaethol a hefyd i werthuso mannau â photensial archeolegol i ganfod a fyddai effaith ar weddillion tebyg nad ydynt wedi'u darganfod hyd yma. Mae angen cytuno ar raglen o arolygon magnometr a thorri ffosydd archeolegol treial ymwthiol a hefyd arolwg topograffig mewn rhai achosion. Mae angen i'r gwaith hwn fod yn sail i benderfyniadau yn ogystal ag i fesurau lliniaru priodol.

11.3 Asesiad Golygfannau

11.3.1 Dywed National Grid ym mharagraff 6.3.4 - '*Bydd yr Asesiad Golygfannau a roddir yn y Bennod ar Effeithiau Gweledol yn cael ei ymgorffori yn yr asesiad o effaith gosodiadau er mwyn mireinio'r asedau hynny lle mae effeithiau arwyddocaol posibl ar hyn o bryd*'.

11.3.2 Mae angen asesiad manwl a dethol o leoliadau ar frys i fireinio'r asedau hynny lle mae posibilrwydd o effeithiau gweddilliol arwyddocaol ar hyn o bryd (fel y nodwyd yn nhabl 9.19 ac fel y gellid ei ganfod trwy werthusiad maes). Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y golygfannau yn yr Asesiad o'r Effaith Weledol yn ateb anghenion yr asesiad o effaith gosodiad ac felly ni ddylai gael ei ymgorffori mewn unrhyw asesiad o osodiadau.

11.3.3 Bydd angen creu delweddu pwrpasol i ddangos sut y gallai'r cynigion effeithio ar elfennau penodol o osodiadau asedau hanesyddol trwy baratoi ffotogafod o, i gyfeiriad, a phan fo hynny'n briodol, rhwng asedau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer safleoedd lle mae rhwng weleddedd amlwg e.e. golygfeydd rhwng AN080 ac AN110; lle mae un heneb wedi dylanwadau ar leoliad un arall e.e. y berthynas rhwng AN080 a LB 5349.

12.0 DAEAREG, HYDROLEG AC AMODAU'R TIR (Pennod 10)

12.1 Dŵr Daear (Asesiad Rhagarweiniol o Effeithiau)

12.1.1 Gydag arferion da'r mesurau lliniaru ar y safle a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylcheddol (CEMP) (Atodiad 4.1) ar waith mae National Grid o'r farn bod yr effeithiau ar haenau heb eu halogi ac ar iechyd gweithwyr adeiladu'n Ddibwys (heb fod yn arwyddocaol) gan y byddai gollyngiadau'n annhebygol ac os ceid gollyngiadau y gellid eu rheoli fel na fyddant yn bygwth iechyd pobl ac y gellid adfer effeithiau lleol ar briddoedd a daeareg. Fodd bynnag, tybir fod yr effaith ar ddŵr

Tudalen 10 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

daear yn Fân Effaith Andwyol (heb fod yn arwyddocaol) yn seiliedig ar faint yr effaith a ragwelir. Mae Cyngor Môn yn tynnu sylw at bresenoldeb derbynyddion dŵr daear o bwys mawr o fewn rhai rhannau o Derfynau'r Prosiect Arfaethedig. Felly, er mai'r risg isel iawn o ollyngiad sy'n cyfyngu ar yr arwyddocâd, mae'n hanfodol bod mesurau rheoli cadarn ar waith i sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu lliniaru. Dylai National Grid fod yn ymwybodol oblygiadau Rheoliadau Difrod Amgylcheddol 2009 yn achos unrhyw ollyngiadau:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/environmental-damage-regulations/?skip=1&lang=cy>

- 12.1.2. Fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu, mae Cyngor Môn yn croesawu'r ymrwymiadau i reoli llygredd, arolygon a gweithdrefnau yn achos digwyddiadau, gan gynnwys Cynllun Rheoli Achos o Lygredd. Disgwylir y bydd y mesurau hyn yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'u sicrhau fel gofyniad yn y DCO.

12.2 Twnelau a Siafftiau Cysylltiedig (Asesiad Rhagarweiniol o Effeithiau)

- 12.2.1 Nid yw'n amlwg yn y PEIR faint o greigiau gwastraff / deunydd a fydd yn cael eu cynhyrchu, eu cyfansoddiad / nodweddion mwynol a ble y bydd yn diweddu, h.y. ym Môn, ar y tir mawr neu ar y ddwy ochr os bydd dau beiriant tyllu'n cael eu defnyddio. Rhaid gwneud penderfyniad ar hyn os bydd dulliau cloddio TMB neu SCL yn cael eu defnyddio.

- 12.2.2 Dylai'r adrannau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a datgomisiynu'r twnnel gynnwys cyfeiriad hefyd at y deunydd cloddio a'r deunydd llenwi a fydd yn dod o'r twnnel ac y bydd ei angen i ôl-lenwi'r twnnel. Yn benodol, y storio, er mai dros dro'n unig y bydd yn rhaid storio sgil-gynhyrchion a llenwad mewn ffordd a fydd yn rhoi sylw i effeithiau posibl ar y priddoedd a'r dŵr daear sydd yno eisoes.

- 12.2.3 Bydd angen i'r ES roi sylw i'r defnydd a adenillwyd a gwaredu maint sylweddol o wastraff a fydd yn deillio o adeiladi'r twnnel. Gellid defnyddio gwastraff (a adenillwyd) fel rhan o gynllun lliniaru a gellid ei ystyried hefyd fel rhan o'r datblygiad arfaethedig, a fydd yn achosi ei effeithiau amgylcheddol ei hun, gan ddibynnu sut y caiff ei waredu / ei ddefnyddio.

- 12.2.4 Yn seiliedig ar gyfrifiadau swyddog mewnol mae cyfrifiad sylfaenol o faint y siafft a'r twnnel yn rhoi ffigur o 8,766 m³ o ddeunydd o adeiladu'r siafft a 62,840m³ wrth dwnelu. Bydd y twnelu'n digwydd dros gyfnod o 3 blynedd ac felly yng nghyd-destun cloddio nid yw'n cyfrif fel maint sylweddol o ddeunydd, a byddai fwy na thebyg yn cael ei ddefnyddio gan y datblygiad. Mae angen astudiaethau ac asesiadau pellach o'r dull twnelu, yr opsiynau ar gyfer gwaredu gwastraff i sicrhau bod modd cael mesurau lliniaru priodol, trafnidiaeth o'r twneli, gwaredu oddi ar y safle, aildefnyddio, a'r effeithiau ar y diwydiant agregau sy'n weithredol yn yr ardal.

12.2.5 Dywed National Grid y bydd Cynllun Rheoli Deunyddiau (MMP) yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod gwastraff a waredir o'r safle lansio yn ystod y gwaith o gloddio'r twnnel yn cael ei symud o'r safle mewn modd priodol. Awgrymir fod MMP yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach na gwaredu gwastraff / deunydd sy'n cael ei gynhyrchu wrth gloddio'r twnnel. Mae'r ymrwymiad i gynhyrchu MMP yn cael ei groesawu, ac mae Cyngor Môn am weld Grŵp Llywio Deunyddiau a Gwastraff yn cael ei sefydlu rhwng y rhanddeiliaid perthnasol i roi sylw i wastraff a rheoli deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r prosiect arfaethedig cyn cyflwyno'r cais am DCO.

12.2.6 Dylai cynllun rheoli o'r fath gael ei gyflwyno ar ffurf drafft fel un o ddogfennau'r cais sy'n rhoi sylw i faint, daeareg a'r amserlen ar gyfer echdynnu sgil-gynhyrchion y twnnel a pha mor addas ydynt i gael eu defnyddio gan y prosiect ei hun, deunydd i adeiladu ffyrdd cludo dros dro, concrit ac wynebu'r compowndiau ac yn y blaen. Bydd angen i'r MMP roi sylw hefyd i ddefnydd terfynol / gwaredu deunydd a ddefnyddiwyd i adeiladu ffyrdd cludo dros dro a chompowndiau sy'n rhan o'r prosiect ei hun. Bydd angen edrych hefyd ar storio sgil-gynhyrchion o fewn y LVIA os bydd pentyrrau o ddeunydd yn cael eu storio ar y safle (Dylid ystyried hyn ym Mhennod 18 – Effeithiau o fewn prosiect).

12.2.7 Fel rhan o MMP dylai ymarferiad cydbwysedd deunyddiau gael ei gynnal i amcangyfrif faint o agregau a gwastraff a gynhyrchrir gan y cynllun yn erbyn faint o agregau fydd ei angen ar y datblygiad. Wrth wneud hynny gall Cyngor Môn weithio â National Grid i ganfod ffynonellau a darparwyr agregau a deunyddiau mwynol gyda'i gilydd gyda safleoedd posibl ar gyfer prosesu a storio gwastraff yn Ynys Môn, Gwynedd a Gogledd Cymru fel rhan o ddatblygiad y cynllun. (Dylid edrych ar hyn ym mhennod 19, Effeithiau rhwng prosiectau). Bydd angen edrych ar ystyriaethau o'r fath ym Mhennod 4 – Adeiladu, Gweithredu, Cynnal a Rhedeg a Datgomisiynu'r prosiect arfaethedig.

13.0 ANSAWDD DŴR, ADNODDAU A PHERYGL LLIFOGYDD (Pennod 11)

13.1 Derbynnyddion adnoddau dŵr

13.1.1 Ym mharagraff 3.3.7 dywed National Grid: "*Diffinnir derbynnyddion adnoddau dŵr yn yr asesiad hwn fel echdyniadau dŵr wyneb a'u dalgyrch cysylltiedig i fyny'r afon*".

13.1.2 Mae'n bwysig bod National Grid yn cynnwys derbynnyddion Dŵr Daear ac mae'r testun yn rhywle arall yn awgrymu bod cais am gofnodion echdyniadau dŵr wedi'u gwneud i CNC / Awdurdodau Lleol. Mae'n bwysig bod cyfeiriad at ddŵr daear a'i fod yn cael ei gynnwys mewn penodau eraill e.e. yn y bennod ar hydroleg.

13.1.3 Dylai National Grid gael data ar echdynnu dŵr daear a chynnwys dŵr daear fel derbynnydd posibl fel rhan o'r asesiad neu gyfeirio ato os yw'r manylion wedi'u rhoi mewn man arall. Rhaid i National Grid gydnabod y risg nad yw pob cyflenwad preifat o reidrwydd wedi'i gofrestru a'r angen i ymgynghori â landlordiaid a all gael eu heffeithio.

13.2 Maint effeithiau a Lliniaru

13.2.1 Mae Tablau 11.20 -11.24 yn cynnwys manylion am raddfa effeithiau – llinell uwchben, gwasanaethau tanddaear trydydd parti, twnnel, THH/SEC ac is-orsafoedd.

13.2.2 Mae'n ymddangos bod effeithiau ac opsiynau lliniaru wedi cael eu diystyr ym y ddogfen yn gynnar iawn, heb gynnwys tystiolaeth i ategu'r casgliadau a wnaethpwyd. Byddai Cyngor Môn yn disgwyl gweld tystiolaeth i ategu'r asesiad o arwyddocâd effeithiau a gofnodwyd yn Adrannau 5.2 i 5.6. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, dylai hyn gael ei fynegi trwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) ac Asesiadau Canlyniadau Llifogydd. Mae'n ymddangos yn gynamserol i asesu'r effeithiau posibl heb o leiaf gwblhau'r asesiadau hyn. Mae hyn yn cael ei weld fel ffodd o osgoi cwmpasu effeithiau arwyddocaol posibl ac i sichau proses benderfynu dryloyw a chadarn.

13.3 Mesurau Rheoli (CMM) a Lliniaru trwy Ddylunio (DMM)

- 13.3.1 Yn Nhabl 11.18, dylai'r mesurau lliniaru trwy Ddylunio o ganlyniad i newidiadau i forffoleg y cwrs dŵr o ganlyniad i waith mewn neu ger cyrsiau dŵr (e.e. adeiladau mannau croesi cyrsiau dŵr) hefyd gynnwys mesurau lliniaru posibl a all fod eu hangen, gan gynnwys mesurau cydbwyo, o ganlyniad i unrhyw ddifywiad mewn elfennau hydromorffegol ategol CFfD, e.e. o ganlyniad i groesi cylfatiau.
- 13.3.2 Dylai'r Mesurau lliniaru trwy Ddylunio o ganlyniad i i ddadleoliad cyfeintiol dŵr llifogydd sy'n gysylltiedig ag adeiladu dwmpathau gwastraff dros dro, Iwybrau mynediad hefyd gynnwys y mesurau lliniaru posibl a all fod eu hangen, gan gynnwys mesurau cydbwyo, o ganlyniad i unrhyw orlifdir a gollir. Mae hyn yn berthnasol yn achos seilwaith cysylltiedig arfaethedig llinellau uwchben a gwasanaethau trydydd parti a hefyd THH/SEC ac Is-orsafoedd. Nodwyd hyn i ganiatáu am iawndal ar gyfer colledion / dirywiad lleol mewn elfennau ansawdd WFD a / neu unrhyw orlifdir a gollir o ganlyniad i dwmpathau gwastraff neu Iwybrau mynediad wedi'u codi ar orlifdiroedd.

14.0 TRAFFIG A THRAFNIDIAETH (Pennod 12)

14.1 Croesfan Afon Menai (Croesgyfeiriad at Adroddiad Croesfan Afon Menai (Pennod – Ystyriaeth Adeiladu, seilwaith arall).

- 14.1.2 Dywed National Grid ‘*Wrth i gynlluniau ar gyfer trydedd groesfan bosib ar draws Afon Menai gael eu hystyried bydd National Grid yn parhau i adolygu ei gynigion. Ar hyn o bryd nid yw prosiect Trydedd Bont Menai wedi’i gadarnhau a hyd nes bydd dyluniad terfynol, gyda chyllid a chaniatâd wedi’u cadarnhau, bydd yn rhaid i National Grid fwrw ymlaen â’i gynlluniau cyfredol i gysylltu cysylltiad Wylfa.*
- 14.1.3 Mae tystiolaeth anecdotaidd a data traffig yn awgrymu bod Pont Britannia yn fan cyfyng ar yr A55 ar adegau brig (i gyfeiriad y gorllewin yn y bore ac i gyfeiriad y dwyrain fin nos), yn ystod misoedd yr haf, neu ar ôl i deithwyr ddod oddi ar y fferi yng Nghaergybi, ac mae gan hyn oblygiadau traffig sylweddol i Bont Britannia. Dyma’r unig ran o Euro Route E22 sy’n ffordd unffrwd ac mae felly’n achos pryder eisoes heb i’r sefyllfa gael ei dwysau gan draffig a gynhyrchir gan brosiectau arfaethedig Wylfa Newydd a National Grid. Hefyd, yn ystod tywydd garw neu os bydd damwain ddifrifol, maent yn cael effaith sylweddol ar Bont Britannia a Phont y Borth (y dargyfeiriad) gan fod y pontydd yn gallu cael eu cau i gerbydau uchel. Mae hyn yn achos cryn bryder o safbwyt cydnerthedd o ganlyniad i gau’r pontydd.
- 14.1.4 O safbwyt Cynllunio at Argyfwng ac yn gysylltiedig ag effeithiau ar dagfeydd traffig gallai dyfodiad traffig y safle gynyddu’r achosion o dagfeydd traffig o fewn “ardal rheoli digwyddiadau” yng nghyffiniau Pont Britannia a Phont y Borth yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion a goblygiadau stacio unrhyw gerbydau na fyddant yn gallu croesi. Gallai cyfuniad o draffig National Grid a Wylfa Newydd fod yn ffactor pwysig yn achos unrhyw ddigwyddiad a fyddai’n effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd ac mae ganddo’r potensial i amharu ar yr ymateb mewn argyfwng.

Mae awdurdodau lleol yn ymatebwyr Categori 1 gyda dyletswydd statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i gynllunio asesiadau risg ac i gynllunio ar gyfer argyfyngau. Fel rhan o’r Gofyniad hwn rhaid i Gyngor Môn, fel yr Awdurdod Lleol â chyfrifoldeb statudol am gynllunio ar gyfer argyfyngau, gynorthwyo i baratoi unrhyw gynlluniau ymateb amlasiantaethol perthnasol y byddai’n ofynnol yn ystod y cam adeiladu.

Mae rôl Cyngor Môn, a gydlynir gan Ganolfan Cydlynu Strategol, mewn ymateb i argyfwng, fel a ganlyn:

- cynorthwyo’r gwasanaethau brys gan gynnwys presenoldeb yn y ganolfan reoli amlasiantaethol (a adwaenir fel y Ganolfan Cydlynu Strategol) a / neu’r lefel reolaeth Dactegol (a adwaenir fel y Ganolfan Rheolaeth Dactegol); a

- darparu cymorth dyngarol i'r gymuned leol a effeithir (preswylwyr lleol, ymwelwyr â'r ardal leol a defnyddwyr ffyrdd sydd wedi cael eu dal gan y digwyddiadau).

Bydd yn rhaid i'r gweithredwr baratoi Cynllun Rheoli Traffig Ardal. Dylai National Grid drefnu bod holl yr holl draffig sy'n teithio i'r safle ac sy'n gadael y safle yng nghyffiniau Pont Britannia yn cael ei symud i 'fan diogel' os oes unrhyw gyfyngiadau'n weithredol o ran symudiad traffig ar draws Pont Britannia;

Byddai'n rhaid i National Grid hefyd reoli symudiadau traffig y safle mewn ffordd bositif yn ystod unrhyw ddigwyddiad o'r fath er mwyn:

- Trefnu i gysylltu â chyflenwyr i ganslo / gohirio cyflenwadau; a
- Threfnu i atal neu addasu symudiad traffig gweithwyr adeiladu yn ôl a blaen o Safleoedd National Grid

14.1.5 Bydd angen i National Grid gydweithio'n agos â Chyngor Môn, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Phŵer Niwclear Horizon a phartneriaid sector cyhoeddus eraill (fel Heddlu Gogledd Cymru) i asesu'n llawn yr effeithiau posibl ar Bont Britannia ac i ystyried a ellid delio â chyfarpar National Grid ar drydedd groesfan, gydag arbedion sylweddol (a fyddai o bosibl yn cynnwys arbedion masnachol) i bob parti.

14.2 Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP)

14.2.1 Mae Cyngor Môn yn tynnu sylw ar nifer o achosion pryder yn gysylltiedig â'r CTMP, sef:

- Y defnydd o ffyrdd anaddas i gludo nwyddau, deunyddiau a gweithwyr yn ystod cam adeiladu'r prosiect.
- Y tebygrwydd o gynnydd sylweddol yn lefel y traffig heb ei reoli sy'n defnyddio ffyrdd Dosbarth II, III a di-ddosbarth i gael mynediad i wahanol fynedfeydd ar hyd llwybr y llinell uwchben.
- Byddai hyn yn arwain at broblemau fel pryderon am ddiogelwch ar y ffordd, cynnydd mewn gwrthdrawiadau posibl rhwng cerbydau, cynnydd mewn tagfeydd traffig, pryderon ynghylch goryrru, difrod i ymylon y gerbytffordd, ac yn y blaen.

14.2.2 Bydd angen i National Grid gyflwyno Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu cynhwysfawr a chadarn i Gyngor Môn i'w adolygu a'i gymeradwyo cyn ei gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol (ES).

14.3 Asesiad Trafnidiaeth (Methodoleg)

14.3.1 Dywed National Grid: *Rheol 1: cynnwys cysylltiadau priffyrrd ll rhagwelir y bydd cyfanswm llif y traffig yn cynyddu mwy na 30% (neu lle rhagwelir y bydd y cynnydd mewn cerbydau HGV yn fwy na 30%)* Er y bydd cysylltiadau penodol yn achosi cynnydd bychan mewn lefelau traffig ,

mae Cyngor Môn o'r farn bod y cynnydd canrannol mewn traffig HGV yn ystod oriau gweithio'n sylweddol iawn. Dylai'r cynnydd yn llif y traffig gael ei asesu fel cynnydd fesul awr mewn traffig HGV, yn hytrach na Thraffig Dyddiol Cyfartalog Blynnyddol (AADT) cerbydau.

14.3.2 'Asesiad Rhagarweiniol o Ddiogelwch Priffordd Ffordd Ddienw NCR 8 :-
cynnydd % HGV ar ddyddiau gwaith 24 awr = 174% Arwyddocâd =
Cymedrol / Mawr' Dylai cynnydd % mewn HGV % gael ei asesu fel
cynnydd fesul awr mewn traffig HGV yn hytrach na chynnydd % mewn
AADT. Mae Cyngor Môn yn anghytuno ag arwyddocâd y casgliad fel yn
nhabl 12.46, h.y. nid yw cynnydd o 174% o arwyddocâd cymedrol.

14.3.3 'I ddibenion yr asesiad rhagarweiniol, mae cerbydau ysgafn (LV) yn
cynnwys ceir, faniau a cherbydau nwyddau sy'n pwysol llai na 7.5 tunnell'
Ni ddylai unrhyw gerbyd dros 3.5 tunnell gael ei gyfrif fel Cerbyd Ysgafn
yn ôl canllaw'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ar fathau o
loriau a'u pwysau.

14.3.4 Bydd angen i National Grid gytuno ar fethodoleg asesu â Chyngor Môn
cyn y gellir cynnal unrhyw asesiadau trafnidiaeth.

14.4 Lleoliad a mynediad i Braint.

14.4.1 Tabl 12.0 (Ardal yr Astudiaeth) '*Disgrifiad o'r Cysylltiad: yr A4080 rhwng yr A5 a Phlas Newydd*'. Bernir fod y cysylltiad hwn yn anaddas fel llwybr cludo traffig adeiladu gan fod cyfyngiadau capaciti yn ei gwneud yn anaddas ar gyfer nifer y cerbydau HGV, heb lawer o opsiynau ar gyfer gwelliannau ffisegol oherwydd seilwaith ac eiddo presennol, ac ati. Mae'n debygol y bydd wrthwnebiad i rai mesurau rheoli traffig fel goleuadau traffig dros dro gan fod yr Awdurdod Prifyr yn debygol o wrthwnebu mesurau lliniaru gan y byddant yn achosi aflonyddwch, oedi sylweddol i yrwyr, ystyriaethau pwysig o ran diogelwch ar y ffordd oherwydd agosrwydd at ysgol gynradd Llanfairpwll.

14.4.2 Tabl 12.0 (Ardal yr Astudiaeth) '*Disgrifiad o'r Cysylltiad: Ffordd ddienw rhwng Star a mynediad i Braint*'. Bernir fod y cysylltiad hwn yn anaddas fel llwybr arfaethedig i draffig adeiladu oherwydd bod cyfyngiadau ar gapasiti a lled cyfyng yn ei gwneud yn anaddas ar gyfer lefel y cerbydau HGV, heb lawer o opsiynau ar gyfer gwelliannau ffisegol oherwydd seilwaith ac eiddo presennol ac yn y blaen. Mae gan y gyffordd â'r A5 yn y cysylltiad hwn hanes o wrthdrawiadau a chwynion am oryrru.

14.4.3 Tabl 12.0 (Ardal yr Astudiaeth) *Cysylltiad sy'n gwasanaethu Mynedfa F01/G8/T1A/iii (Ffordd Ddi-ddosbarth dros Bont Rhonwy Llanfairpwll)*'. Bernir fod y cysylltiad hwn yn anaddas ar gyfer unrhyw gerbydau HGV neu gynnydd mewn traffig cerbydau ysgafn oherwydd cyfyngiadau capaciti, aliniad llorweddol a fertigol gwael ac yn y blaen.

14.4.4 Dylai National Grid chwilio am lwybrau eraill neu wneud gwelliannau i'r briffordd i wneud y llwybrau'n fwy addas i ddelio â chynnydd yn lefel y traffig a gynhyrchrir gan y Prosiect Arfaethedig. Mae'n bwysig bod trafodaethau rheolaidd yn digwydd rhwng National Grid a Chyngor Môn.

14.5 Addasrwydd Llwybrau Traffig Adeiladu (Atodiad 4.3 CTMP rhagarweiniol, Atodiad A2: Llwybrau Adeiladu a Lleoliad Pwyntiau Mynediad rhagarweiniol)

14.5.1 Rhaid cytuno ar yr holl lwybrau traffig adeiladu â Chyngor Môn. Mae'r rhestr ganlynol, er nad yw'n gyflawn o bell ffordd, yn cynnwys llwybrau anaddas / mynedfeydd a awgrymir i'w defnyddio gan y prosiect arfaethedig:

- **Mynedfa A05** – Dylai asesiad gynnwys gwaith Horizon, h.y. Gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle i asesu'n llawn yr effaith a'r mesurau lliniaru fydd eu hangen.
- **Ffordd Brynddu (Llanfechell i Rosgoch)** – Bernir fod y rhan hon o'r ffordd yn anaddas i ddelio â chynnydd mewn lefelau traffig oherwydd cyfyngiadau capaciti, diffyg ffordd ddigon llydan i ddelio â llif traffig dwy ffordd, ac yn y blaen.
- **Ffordd Ddienw A8 (B5111 i Gapel Parc)** - Bernir fod y rhan hon o'r ffordd yn anaddas i ddelio â chynnydd mewn lefelau traffig oherwydd cyfyngiadau capaciti, diffyg ffordd ddigon llydan i ddelio â llif traffig dwy ffordd, ac yn y blaen.
- **Lôn Leider** - Bernir fod y rhan hon o'r ffordd yn anaddas i ddelio â chynnydd mewn lefelau traffig oherwydd cyfyngiadau capaciti, diffyg ffordd ddigon llydan i ddelio â llif traffig dwy ffordd, ac yn y blaen.
- **Ffordd Ddienw 9 (Lôn Bachau)** - Bernir fod y rhan hon o'r ffordd yn anaddas i ddelio â chynnydd mewn lefelau traffig oherwydd cyfyngiadau capaciti, diffyg ffordd ddigon llydan i ddelio â llif traffig dwy ffordd, ac yn y blaen.
- **Lwybr sy'n cysylltu'r B5110 Rhosmeirch a'r B5111** – anaddas i'w defnyddio fel llwybr LGV. Dylid cynnig llwybr amgen.
- **Ffordd Ddienw A10** – Bernir fod rhan o'r ffordd sy'n cysylltu â'r Ffordd Fynediad Dros Dro (TAR) yn anaddas i ddelio â thraffig HGV
- Nid yw **Ffyrdd Dienw A17 a'r A20** sy'n gwasanaethu Mynedfeydd E03, E04, E05 ac E06 yn addas ar gyfer cynnydd mewn lefelau traffig. Dylid cynnig llwybr amgen.
- **Mynedfa C11** – mae'r ffordd sy'n gwasanaethu'r mynediad i Fynedfa C11 yn briffordd gyhoeddus – dylid nodi hyn ar y lluniadau.
- **Ffordd Ddi-enw19** – mae'r ffordd sy'n gwasanaethu mynedfa C06 a C07 mewn cyflwr gwael ac ni all ymdopi â lefel uwch o draffig heb waith adfer / gwella.
- **B5420** rhwng cylchfan Ffordd Gyswilt Llangefni a mynedfa'r compownd adeiladu – mae angen gwelliannau sylweddol oherwydd mannau cyfyng y rhwydwaith.
- **Ffordd Ddienw NCR 8 / cyffordd yr A5** i'w cynnwys mewn Asesiad Trafnidiaeth.

14.5.2 Dylid cytuno ar yr holl lwybrau traffig adeiladu â Chyngor Môn gyda thrafodaethau rheolaidd yn parhau. Bydd cynigion lliniaru'n cael eu hasesu pan yn briodol ar ffurf gwelliannau ffisegol i'r priffyrrd neu gynnig awgrymiadau ar gyfer llwybrau amgen.

14.6 Lleoliad a mynediad i'r Compownd Adeiladu

14.6.1 Ym Mhennod 6 (Lliniaru Arfaethedig ac Effeithiau Gweddilliol) mae National Grid yn cyfrifo bod – ‘O'r teithiau cerbydau sy'n gysylltiedig ag elfen llinellau uwchben y cynllun, rhagwelir y bydd tua 30% yn dilyn llwybr trwy'r compownd adeiladu ger Llangefni. Tybir y bydd y 70% arall o'r traffig yn teithio'n ôl a blaen yn uniongyrchol o'r fynedfa briodol sy'n cysylltu'r Ffordd Fynediad Dros Dro a lleoliad y gwaith adeiladu’.

14.6.2 Ni chafwyd digon o wybodaeth i brofi'r dybiaeth uchod. Mae Cyngor Môn o'r farn bod y cysylltiadau sy'n rhoi mynediad i'r compownd adeiladu'n un gwael ac annio gel. Mae hyn o ganlyniad i gyfuniad o fannau cyfyng yn y rhwydwaith a mynediad gwael i gerbydau at ac oddi ar y rhwydwaith priffyrrd strategol. Nid oes cyllid wedi'i sicrhau eto ar gyfer rhannau 3 a 4 o Ffordd Gyswilt Llangefni i'w cynnwys fel llwybr adeiladu ar gyfer cerbydau National Grid. Nid yw'r B5420 rhwng Llangefni a chylchfan Four Crosses yn addas fel llwybr i gerbydau HGV i'r compownd adeiladu, oherwydd geometreg lorweddol a fertigol gwael, cyfyngiadau ar y lled, gwahanu cymunedau ac ati. Oherwydd y cyfyngiadau uchod, dylai National Grid ystyried Ystâd Ddiwydiannol Bryn Cefni (Llangefni) neu safleoedd addas eraill fel lleoliad ar gyfer y compownd adeiladu. A mynd ati i drafod ei haddaswydd i ddelio â symudiadau traffig yn ystod y cyfnod adeiladu â Chyngor Môn.

14.6.3 Yn y lle cyntaf, mae angen mwy o ymgynghori â Chyngor Môn i drafod dosbarthiad traffig ar y rhwydwaith priffyrrd lleol a strategol. Yn ail, bydd angen cytuno â Chyngor Môn ar welliannau i'r priffyrrd i wneud y cysylltiad i'r compownd adeiladu yn fwy addas ac i hwyluso'r cynnydd a ragwelir mewn traffig HGV o ganlyniad i brosiect National Grid. Mae Cyngor Môn yn ystyried yr angen am gyfraniadau ariannol i sicrhau defnydd o rannau 3 a 4 fel llwybr mynediad, neu i ystyried llwybr arall addas i'r compownd adeiladu.

14.7 Llwybr Arfordirol Cymru (Atodiad 4.4 Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus Drafft)

14.7.1 Rhagwelir y bydd llwybr y traffig adeiladu ar hyd yr A4080 yn cael effaith negyddol ar hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys llwybrau cerdded cymunedol a rhan o Lwybr Arfordirol Cymru Gyfan. Bydd angen asesu diogelwch defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus ar hyd y llwybr hwn o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol mewn traffig HGV a gynhyrchrir gan brosiect National Grid. Dylai'r rhan hon o'r hawl tramwy cyhoeddus gael ei chynnwys yn y bennod ar effeithiau economaidd

gymdeithasol, oherwydd yr effaith negyddol a ragwelir ar atyniad y llwybr gan arwain at ostyngiad posibl yn nifer y defnyddwyr, ac yn y blaen.

14.8 Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Croesgyfeiriad at Bennod 16)

- 14.8.1 Dywed Paragraff 5.1.8 o'r bennod ar effeithiau Economaidd Gymdeithasol: '*Yn ôl y Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r hawliau tramwy cyhoeddus a effeithir gan y Prosiect Arfaethedig yn cael eu rheoli trwy ddefnyddio staff contract mewn mannau croesi.*
- 14.8.2 Ceir rhagor o fanylion yn y Cynllun Rheoli yn Atodiad 4.4, fodd bynnag, mae angen rhagor o wybodaeth am sut y byddai hyn yn gweithio, yn benodol o ran trefniadau lechyd a Diogelwch a hyd tebygol yr oedi i ddefnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus.
- 14.8.3 Dylid sicrhau bod mesurau lechyd a Diogelwch priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus sy'n agos at fannau adeiladu. Os yw oedi'n debygol o fod yn sylweddol, efallai y byddai dargyfeiriad dros dro'n fwy priodol. Dylid trafod unrhyw gynigion o'r fath â Chyngor Môn gyda lefel ddigonol o wybodaeth ategol.

15.0 ANSAWDD YR AER AC ALLYRIADAU (Pennod 13)

- 15.1 Dywed National Grid – '*Mae'r strategaeth ynni ar gyfer y prosiect arfaethedig yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd a bydd y data allyriadau i ddibenion asesiad o ansawdd yr aer yn cael ei gyflenwi pan fydd yn barod. Bydd yr asesiad manwl o allyriadau'r gweithfeydd ynni a fydd yn cael eu cynnwys yn yr ES yn seiliedig ar y dull a ddisgrifir yn Atodiad 13.4.*
- 15.2 Mae diffyg asesiad o'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r gweithfeydd ynni yn achos pryder i Gyngor Môn. Dylai'r asesiad, a'r mesurau lliniaru arfaethedig fod wedi'u cwblhau ac wedi bod yn destun ymgynghori cyn cyflwyno'r cais am DCO. Mae Atodiad 13.4 yn dangos y byddai gwaith modelu gwasgariad yn cael ei wneud a dim ond blwyddyn o ddata meteorolegol o Orsaf Mona fyddai'n cael ei ddefnyddio. Tybir ei bod yn arfer da i brofi amrywiant rhwng blynnyddoedd trwy ddefnyddio o leiaf tair blynedd o ddata meteorolegol.
- 15.3 Ar ôl cwblhau'r asesiad ac asesu'r amrywiant rhwng blynnyddoedd, dylid ymgynghori â Chyngor Môn ar yr asesiad o effeithiau posibl a chynghori ar y gofynion am unrhyw fesurau lleihad sydd eu hangen ar gyfer y gweithfeydd ynni. Nid yw'r CEMP yn cynnwys mesurau penodol i lliniaru effeithiau sŵn ac ar ansawdd yr aer yn achos y gweithfeydd ynni. Dylai'r CEMP gael ei ddiweddar i gynnwys mesurau prosiect benodol yn unol â chanfyddiadau'r EIA.

16.0 SŴN A DIRGRYNIADAU O WAITH ADEILADU (Pennod 14)

16.1 Adeiladu Peilonau (Effeithiau Sŵn Adeiladu)

16.1.1 Ym mharagraff 6.3.13, dywed National Grid – ‘*Mae'r asesiad rhagarweiniol o effeithiau sŵn a fydd yn deillio o wahanol agweddau ar waith adeiladu wedi nodi gwaith tyllu fel ffynhonnell arwyddocaol o sŵn a dirgryniad, Felly mae asesiad pellach o'r gweithgarwch hwn wedi'i gynnal*’.

16.1.2 Mae Cyngor Môn yn credu bod yr asesiad o sŵn / dirgryniadau o waith tyllu wrth godi peilonau'r llinell uwchben wedi cael ei gynnal gan edrych ar yr achos gwaethaf, gan dybio dulliau effaith ar gyfer tyllu, sy'n briodol i ddibenion asesiad o'r effaith amgylcheddol. Mae'n debyg y bydd angen dull tawelach pan fydd yn digwydd yn agos at dderbynyddion sŵn sensitif. Byddai Cyngor Môn yn disgwyl y bydd trefniadau'n cael eu cynnwys ar gyfer sut y bydd BPM yn cael ei sicrhau.

16.2 Twnnel

16.2.1 Ym mharagraff 6.5.3 o dan y prif bennawd Twnnel ac is-bennawd Drilio a Chwythu, dywed National Grid – ‘*Gorbwysau aer o ganlyniad i weithgarwch chwythu ar yr wyneb Gellir teimlo amledd is o ynni o'r awyr fel cyfergyd neu bwysau. Oherwydd natur dros dro'r gwaith, ni thybir ei fod yn debygol o arwain at effaith andwyol ar y derbynnydd agosaf. Bydd gorbwysau aer yn cael ei liniaru trwy ddylunio priodol ar gyfer y chwythu. Bydd sŵn chwythu o fewn y twneli'n cael ei gyfyngu a bydd yn lleihau wrth i'r twnnel fynd yn ddyfnach o dan yr wyneb.*

16.2.2 Yn nes ymlaen yn y bennod ym mharagraff 6.5.11 o dan yr is-bennawd Effaith Sŵn a Dirgrynu o Waith Adeiladu, dywed National Grid ‘*Mae gan y ddau ddull twnelu'r potensial i achosi sŵn a dirgryniad y gellir ei glywed a'i deimlo ar y tir wrth iddynt basio o dan NVSR. Bydd effaith bosibl y sŵn a'r dirgryniadau'n dibynnu ar lwybr y twnnel ac ar y dull a ddewisir. Yn sgil profiad o brosiectau twnelu eraill, nid yw sŵn a dirgryniadau ar y tir yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar dderbynyddion posibl am na fydd y gwaith twnelu'n para am gyfnod hir gerllaw (o dan) y derbynnydd. Felly, mae arwyddocâd effeithiau o ganlyniad i sŵn / dirgryniadau ar y tir yn debygol o fod yn ddibwys, yn enwedig os bydd unrhyw breswylwyr a all gael eu heffeithio'n cael eu hysbysu ymlaen llaw, ac mae hynny'n cael ei weld fel arfer gorau*’.

16.2.3 Mae Cyngor Môn yn credu bod angen pendant i gysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned os am osgoi effeithiau arwyddocaol. Byddai Cyngor Môn yn disgwyl y byddai trefniadau wedi'u hamlinellu yn y CEMP (neu'r Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgrynu) i hysbysu am dderbynyddion sŵn / dirgrynu sensitif a allai gael eu heffeithio gan dwnelu / chwythu.

16.3 Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylcheddol (CEMP) (Cyffredinol)

- 16.3.1 Nid yw Cyngor Môn yn credu bod y mesurau Iliniaru a gynigir yn ddigonol ac mae'n disgwyd y bydd y mesurau rheoli a Iliniaru a gynigir yn gydnaws ag arferion gorau ac yn gydnaws â'r darpariaethau amddiffyn a ddefnyddiwyd mewn cynlluniau DCO eraill. Byddai Cyngor Môn yn disgwyd cael mwy o wybodaeth a fyddai'n datgan sut y byddai sŵn tymor hir, 24 awr o safle ategol y twnnel yn cael ei reoli, a sut y gellid sicrhau'r mesurau rheoli hynny. Dylid nodi nad yw'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r gweithfeydd ynni wedi cael eu hasesu eto.
- 16.3.2 Mae Cyngor Môn yn disgwyd y bydd trefniadau'n cael gwneud ynglŷn â rheoli oriau gweithio a BPM. Er enghraifft, mae llawer o gynlluniau DCO wedi gwneud ymrwymiadau i ddefnyddio prosesau i geisio, cael a gweithio o fewn cydsyniadau penodol fel yr amlinellir yn Adran 61 y Ddeddf Rheoli Llygredd (s61). Dylid cael mecanweithiau hefyd i fonitro effeithiau adeiladu a sicrhau nad ydynt yn sylweddol waeth na'r rhai a gofnodwyd yn y datganiad amgylcheddol.
- 16.3.3 Byddai Cyngor Môn yn disgwyd gweld amseroedd danfon nwyddau i gompowndiau adeiladu'n cael eu cyfyngu fel nad ydynt yn digwydd yn ystod y nos. Hoffai Cyngor Môn weld mwy o bwyslais ar logisteg, cynllunio a threfnu i leihau effeithiau. Gallai danfoniadau 'Mewn Pryd' i safleoedd penodol yn hytrach nag i'r compownd adeiladu i leihau effeithiau, pan fydd hynny'n ymarferol.
- 16.3.4 Argymhellir fod y compownd adeiladu yn Llangefni (PEIR 3.12.2) yn cael eu lleoli yn y mwyaf dwyreiniol o'r ddau gae sydd y naill ochr i'r ffens. Byddai hyn yn manteisio ar sgrinio naturiol sy'n cael ei greu gan dirffurf, i amddiffyn eiddo gerllaw. Gellid byndio gan ddefnyddio deunydd o'r safle fel mesur Iliniaru ychwanegol, ar hyd llinell y ffens.

16.4 CEMP – Ffensiø a dulliau amgáu eraill

- 16.4.1 Ym mharagraff 7.1.4, dywed National Grid: '*Efallai y bydd angen mesurau Iliniaru, sy'n ychwanegol at yr hyn a geir yn y CEMP rhagarweiniol mewn safleoedd adeiladu tymor hir a 24 awr. Gall hyn gynnwys rhwystrau acwstig a mannau caeedig ar gyfer gweithgarwch sy'n arbennig o swnllyd, neu mi fydd byrddau'n cael eu codi o amgylch y rhan fwyaf o'r safleoedd beth bynnag. Ni fydd y mesurau hyn yn hysbys nes bydd y contractwr wedi cynnal asesiad sŵn a dirgryniad manwl o'r gweithgareddau penodol a'r gwaith a fydd yn cael ei wneud ym mhob lleoliad. Bydd y mesurau hyn yn cael eu nodi yn y CEMPAu yn achos pob safle neu faes gwaith*'
- 16.4.2 Nid oes cyfeiriad yn y CEMP at fyrrdau solet ar y safle sy'n ddigon trwm i leihau sŵn adeiladu. Lle mae angen lleihau sŵn dylid defnyddio byrddau heb dyllau ar y safle sydd wedi'u dylunio'n briodol i leihau sŵn o'r safle adeiladu. Ceir cyfeiriad at rwystrau yn Nhabl 2 yn y CEMP. Yn

achos gweithfeydd statig byddai Cyngor Môn yn disgwl y byddai hyd y defnydd a'r oriau gweithio yn y gweithfeydd yn cael eu nodi fel ffactor wrth benderfynu ar lefel y lliniaru sydd ei angen.

16.5 CEMP – Lliniaru Oddi ar y Safle

- 16.5.1 Byddai Cyngor Môn yn disgwl gweld cyfeiriad at ymrwymiad i raglen lliniaru oddi ar y safle. Efallai y bydd hyn yn ofynnol os bydd yr ES yn amlygu effeithiau arwyddocaol na ellir eu lliniaru'n rhesymol nac yn ymarferol ar safle'r gwaith, neu fod effeithiau o'r fath yn digwydd yn ystod gwaith adeiladu o ganlyniad i waith swnllyd gofynnol na ellid yn rhesymol fod wedi'i ragweld pan oedd yr ES yn cael ei baratoi.
- 16.5.2 Mae'n arfer da sefydledig i broiectau seilwaith mawr fabwysiadu Polisi Insiwleiddio rhag Sŵn ac Ailgartrefu Dros Dro yn ystod camau adeiladu. Mae'r Polisi'n cynnwys mein prawf (lefelau sŵn, am ba hyd y bydd yr effeithiau a ragwelir y para) ac os byddant yn cyrraedd y mein prawf y bydd hynny'n arwain at ailgartrefu dros dro neu insiwleiddio rhag sŵn. Mae'n amlinellu pa fesurau a gymerir pan fydd rhagolygon yn awgrymu y bydd yr effeithiau'n fwy na'r mein prawf. Mae gweithredu'r cynllun yn ofyniad yn y contract i'r Contractwr. Mae'r dull hwn yn cael ei weld fel ffordd o sicrhau bod y Contractwyr yn gwneud pob ymdrech i leihau sŵn yn ei darddiad.

17.0 SŴN A DIRGRYNU O REDEG Y GWAITH (Pennod 15)

17.1 Dargludyddion

- 17.1.1 Mae'r bennod hon yn croesgyfeirio at Adroddiad Dethol Opsyna'u'r Llwybr a Ffeyfrir (Adroddiad PROS), (Cwmpas a Methodolegau Arfarnu Opsyna'u OASM) lle dywedir yn 9.2: '*Noda EN-5 nad yw sŵn o linellau uwchben yn debygol o achosi i awdurdod penderfynu wrthod cais; mae hyn am fod y sŵn sy'n dod o linellau uwchben foltedd uchel yn ganlyniad foltedd a geometreg yn bennaf ac nid yw'n ymarferol i geisio dileu effeithiau sŵn yn gyfan gwbl. Ar ôl eu hadeiladu, mae'r cyfleoedd i gyflwyno mesurau lliniaru pellach i atal sŵn llinellau uwchben yn gyfyngedig iawn. Mae National Grid yn dilyn y canllawiau ar sŵn a amlinellir yn EN-5 ac mae o'r farn bod y rhain yn rhan hanfodol ar gyfer lleoliad a dyluniad llinellau uwchben newydd*'.

- 17.1.2 Dywed paragraff (4.1.9 Adran B: Rhosgoch i Landyfrydog) PEIR: 'Bydd tua 5.9 km o linell newydda fydd yn cynnwys peilonau L12 gyda dargludydd Twin Redwood a fydd yn gweithredu ar 400 kV. Bydd rhan o'r llinell uwchben bresennol yn cael ei hailalinio a fydd yn golygu cael gwared ar saith peilon L6 a chodi peilonau L12 gyda dargludydd Twin Redwood yn eu lle'.

- 17.1.3 Mae Cyngor Môn yn credu bod y potensial ar gyfer problemau sŵn yn cynyddu mewn parthau trosiannol oherwydd 2 x linell uwchben gyda

Tudalen 22 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

dargludyddion deuol a'u bod yn agos at dai. Nid yn unig y bydd llinell ychwanegol yn cael ei chodi ond bydd y llinell bresennol yn cael ei haddasu a bydd dirywiad i'w brofi mewn perfformiad o ran sŵn. Gan nad oes llawer y gellir ei wneud ar ôl i'r llinellau gael eu codi, mae Cyngor Môn o'r farn bod digon o gyfiawnhad i ystyried claddu'r ceblau yn y mannau hyn. Mae'r gost ychwanegol o gael peilonau newydd ar y llinell bresennol a'r dirywiad mewn perfformiad o ran sŵn yn haeddu ystyriaeth bellach i gladdu'r ceblau yn y mannau trosiannol hyn, oherwydd fel y dywed paragraff 5.1.28 *Nid yw llinellau tanddaearol yn cynhyrchu sŵn na dirgryniad wrth weithredu...*".

17.2 Adeilad Pen Twnnel (THH)

- 17.2.1 Ar gyfer datblygiad arfaethedig yr Adeilad Pen Twnnel, dywed National Grid ym mharagraff 5.1.31 '*Bydd sŵn gweithredol o adeiladau pen twnnel yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r dull a amlinellir yn BS 4142:2014 ... Bydd y dull hwn yn canfod effeithiau andwyol arwyddocaol ac yn helpu â meini prawf dylunio a mesurau lliniaru sŵn priodol pan fydd angen hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni thybir ei bod yn debygol y bydd unrhyw effeithiau arwyddocaol, yn bennaf oherwydd y pellter oddi wrth y NSR agosaf.*'
- 17.2.2 Mae Cyngor Môn am weld proses ddylunio a sicrwydd gynhwysfawr i sicrhau bod modd osgoi effeithiau arwyddocaol a bod unrhyw effeithiau andwyol yn cael ei lleihau i'r graddau posibl. Ar ôl adolygu canlyniad y broses ddylunio a sicrwydd, bydd Cyngor Môn yn cynghori ar yr angen am fesurau rheoli a Gofynion DCO i sicrhau mai offer â lefelau sŵn derbynol sy'n cael eu defnyddio.

17.3 Is-orsafoedd

- 17.3.1 Mae'r bennod hon yn croesgyfeirio at Adroddiad Drafft Alinio'r Llwybr Ffefrir (Adroddiad DRA) 4: Adran A Wylfa i Rosgoch
- 17.3.2 Dywed Paragraff 5.1.38 o'r PEIR: '*Nid oes gweithfeydd adweitheddol yn cael eu cynnig ar gyfer Wylfa, fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen adweithydd siynt ym Mhentir. Bydd asesiad llawn o allyriadau sŵn posibl yn cael ei gynnal pan fydd gofynion manwl y gweithfeydd ar gael.*'
- 17.3.3 Dywed Adran DRA- 4: Adran A: ...'i gysylltu un o'r ddaau o'r cylchedau hyn i Wylfa, bydd angen estyniad at yr is-orsaf bresennol. Dywed Adran DRA- 4: Adran A: ... 'Y cynnig yw y byddai'r offer trydanol newydd sydd ei angen yn cynnwys offer cywasgedig wedi'i insiwlleiddio â nwy, yn hytrach na'r offer traddodiadol sy'n cael ei insiwlleiddio ag aer sy'n cael ei ddefnyddio yn yr is-orsaf bresennol yn Wylfa...'
- 17.3.4 Mae Cyngor Môn o'r farn y bydd angen trafod cyfyngiadau sŵn a phennu cyfyngiadau i sicrhau nad oes dim effeithiau arwyddocaol o ganlyniad i sŵn o offer yn yr is-orsafoedd. Mae Cyngor Môn am weld

asesiad llawn yn cael ei gynnal ar gyfer yr EIA a bod proses ddylunio, caffael a sicrwydd yn cael ei chynnig ac y cytunir arni i osgoi effeithiau arwyddocaol ac i leihau effeithiau andwyol i'r graddau posibl. Yn dilyn yr asesiadau bydd Cyngor Môn yn adolygu'r gofyniad bod cyfyngiadau sŵn yn cael eu gosod, a bydd Gofynion yn cael eu gosod i sicrhau mai offer â lefelau sŵn derbyniol sy'n cael eu defnyddio.

17.3.5 Mae hymian trydanol wedi bod yn achos cwyn gan drigolion pentref Cemaes yn y gorffennol. Mae Cyngor Môn ar ddeall nad yw National Grid yn siŵr ar hyn o bryd ai eu newidyddion hwy ynteu rhai Wylfa A sydd i'w clywed yng Nghemaes ynteu cyfuniad o'r ddau. Mae un o'r newidyddion yn un o fath tawelach tra bod SGT4 yn fath hŷn sy'n fwy swnllyd. Dylid ystyried cynnig newid y newidydd hwn fel mesur lliniaru yn yr ardal hon.

17.4 Mesurau Lliniaru ac Effeithiau Gweddilliol

17.4.1 Dywed National Grid ym mharagraff 6.1.1 – ‘*Ar hyn o bryd nid oes modd cynnig mesurau lliniaru manwl nes bydd y dyluniad a'r gosodiad yn derfynol. Bydd asesiad pellach yn cael ei gynnal yn ystod y cam dylunio manwl, a fydd yn edrych ar ddulliau i lliniaru'r effeithiau sŵn posibl a fydd yn deillio o'r Project Arfaethedig*’. Dywed Paragraff 6.1.4 ‘*Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud ar gyfer y dyluniad a'r opsiynau ar gyfer llwybr y llinell uwchben newydd ni fydd dim opsiynau lliniaru ymarferol pellach ar gael....*’ Mae Paragraff 6.1.5 yn cloi gyda ‘*Bydd sŵn o ffitiadau ac ynysyddion y peilonau'n cael ei lliniaru trwy ddewis offer priodol a'u gosod yn gywir...*’

17.4.2 Mae'n ymddangos bod y ddau ddatganiad uchod yn gwirthddweud ei gilydd. Mae Cyngor Môn yn deall bod lleoli'r peilonau a dewis y dargludyddion yn hanfodol i'r sŵn a gynhyrchrir, ac unwaith y cytunir ar hyn nid oes dim mesurau lliniaru pellach yn bosibl, heblaw'r dewis o ffitiadau'r peilon a'r mathau o ynysyddion. Mae'n ymddangos felly bod y dewis o ddargludydd yn allweddol fel dull lliniaru. Mae gan Gyngor Môn felly bryderon difrifol am yr asesiad PEIR a'i ddyylanwad ar y dewis o ddargludydd ,gan fod yr asesiad ar hyn o bryd yn seiliedig ar lefel sŵn cefndir tybiedig o 30dB (A), ac nid yw Cyngor Môn yn cytuno â hyn. Dylid cyflawnhau'r datganiad mai'r cyfluniad a ddewiswyd yw'r system dawelaf â thystiolaeth ddigonol.

17.4.3 Byddai felly'n ymddangos bod y dewis o ddargludydd yn ddull sylfaenol i lliniaru ac mae angen i hyn fod yn briodol o safbwyt amgylcheddol o fewn cyfyngiadau'r opsiynau sydd ar gael. Dylid cyflwyno proses i ddethol, cytuno ar a sicrhau aliniad a lleoliad optimwm ar gyfer llinellau uwchben ac offer arall a fydd yn lleihau sŵn i'r graddau posibl.

17.4.4 Mae Cyngor Môn yn croesawu'r datganiad y bydd effeithiau ychwanegol llinellau presennol a rhai a godir yn y dyfodol yn cael eu hystyried, yn

benodol mater llinellau'n croesi a'r posiblwydd y gallai llinellau mwy swnllyd gymryd lle'r rhai presennol.

18.0 MATERION ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (Pennod 16)

18.1 Cyflogaeth a Sgiliau

- 18.1.1 Mae National Grid yn datgan: '*There is potential for the proposed development to impact (positively or negatively) on the communities within the study area through the introduction of additional workers. The number of construction workers would fluctuate throughout the construction programme, and is expected to peak at around 400. The main construction works are expected to take place over a four year period (2020-2024) (para 5.6.2), with the majority of the workers coming from outside the region*' (ni roddwyd manylion) (tudalen 68).
- 18.1.2 '*National Grid suggest that a small number of construction jobs would be taken up by workers from Anglesey and Gwynedd.*' (tudalen 47)
- 18.1.3 Y prif faterion sy'n berthnasol i'r bennod ar faterion economaidd-gymdeithasol y mae angen ymdrin â nhw yw:
- Cyflogaeth a sgiliau lleol – Ni ddiffiniwyd y proffil sgiliau a nifer y swyddi lleol. Rhaid cael gwybod hyn er mwyn nodi cyfleoedd, mynediad at swyddi a hyfforddiant, a datblygu llwybrau i gyflogaeth. Bydd y proffil a'r niferoedd hefyd yn pennu maint a graddfa nifer o effeithiau dichonol gwahanol eraill e.e. y galw am lety gan weithwyr adeiladu;
 - Effeithiau negyddol dichonol ar gyflogaeth – os bydd y galw am gyflogaeth leol wedi'i ddiwallu eisoes gan brosiectau presennol eraill, fel ei fod yn fwy na'r capaciti lleol. Mae angen deall hyn er mwyn gwreddu'r potensial i greu swyddi lleol drwy'r prosiect. Gan fod yr amcangyfrif o nifer y swyddi yn y cyfnod prysuraf yn gymharol isel, mae'n debygol y bydd yr effeithiau dadleoli yn gyfyngedig. Awgrymir cynnal dadansoddiad o hyn;
 - Ymrwymiad i ddefnyddio busnesau a llafur lleol – mae angen troi'r datganiadau uchod yn Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragorweiniol National Grid yn ymrwymiad cadarn i sicrhau'r mwyaf posibl o swyddi a hyfforddiant lleol drwy brif gontactwyr ac is-gontactwyr ochr yn ochr â dealltwriaeth o'r sgiliau/cymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer y swyddi dichonol (gweler y Siarter Cadwyn Gyflenwi a chynigion Iliniaru'r Strategaeth Caffael);
 - Bydd y canfyddiadau o'r Arolwg Busnes yn rhoi rhagor o dystiolaeth am yr effeithiau dichonol ar fusnesau lleol y byddai cynigion Iliniaru yn cael eu datblygu ar eu sail. Deellir y bydd CSYM yn gofyn am ddiweddarriad ar fewnbwn CSYM i fethodoleg yr Arolwg Busnes a'r amserlen ar gyfer cynnal yr arolygon – dadansoddi canlyniadau a nodi meysydd ychwanegol sy'n peri pryder.

Tudalen 25 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

18.1.4 Mae CSYM yn awgrymu bod y mesurau lliniaru canlynol yn cael eu datblygu a'u gweithredu:

- Datblygu Strategaeth Gweithlu sy'n nodi nifer y swyddi dichonol a'r sgiliau fydd eu hangen yn lleol er mwyn darparu mwy o hyfforddiant i alluogi preswylwyr i fanteisio ar gyfleoedd am swyddi. Dylai'r proffil sgiliau ddangos y sefyllfa o ran llafur lleol a llafur nad yw'n lleol. Dylai'r dadansoddiad roi sylw i gyfnodau adeiladu a gweithredu'r prosiect;
- Er bod niferoedd cyffredinol y gweithwyr adeiladu yn debygol o fod yn gymharol isel, mae'r prosiect yn cynnig cyfle ar gyfer cyflogaeth, profiad gwaith, hyfforddiant a phrentisiaethau. Dylid sicrhau targed ymarferol a chyraeddadwy ar gyfer cyflogi pobl leol wedi'i seilio ar Strategaeth Gweithlu a gytunir (gweler 1 uchod). Er enghraift, roedd prosiect Hinkley Connections wedi pennu cyfanswm cronus o 17% o leiaf ar gyfer cyflogi pobl leol gan NG neu gontactwyr Haen 1 neu Haen 2;
- Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Caffael glir sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontactwyr Haen 1 a Haen 2 bennu nifer ac amrediad y swyddi, lleoedd mewn hyfforddiant, lleoliadau profiad gwaith a phrentisiaethau a fydd ar gael. Dylai hyn fod ar ffurf Cynllun Cyflogaeth a Hyfforddiant sy'n nodi sut a pha bryd y bydd y cyfleoedd yn cael eu darparu;
- Nodi/creu prentisiaethau a lleoliadau gwaith a fydd yn arwain at swyddi parhaol a phennu targed ac ymrwymiad clir o ran nifer y prentisiaid a lleoliadau gwaith mewn gwahanol grefftaw a galwedigaethau gan ddangos y gwahanol fathau a'r adnoddau (ariannol a staff) a fydd yn cael eu rhoi i gyflawni hyn;
- Bydd yn ofynnol i gontactwyr gydweithio â CSYM a phartneriaid i hyrwyddo cyfleoedd am hyfforddiant a chyflogaeth a dylid monitro hyn;
- Ymgymryd â dadansoddiad o fylchau er mwyn canfod cyfleoedd posibl a datblygu gwaith ar lwybrau i gyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer grwpiau targed a phreswylwyr sydd am ymuno â marchnad lafur y sector adeiladu. Bydd hyn yn galw am gydweithio â CSYM a phartneriaid mewn asiantaethau hyfforddi/cymorth;
- Buddsoddi mewn darpariaeth ar gyfer hyfforddiant a chyfleusterau hyfforddi newydd er mwyn sicrhau bod y gyfran fwyaf posibl o gyfleoedd am swyddi'n cael ei chymryd gan weithwyr sy'n preswylio yn yr ardal marchnad lafur/teithio i'r gwaith yn y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi cyfalaf mewn cyfleusterau ar gyfer crefftaw adeiladu, crefftaw mecaniddol a thrydanol, peirianneg sifil a galwedigaethau rheoli, proffesiynol a chymorth er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o dalentau a llafur lleol a delio â'r effeithiau o ddadleoli llafur;
- Ymchwilio i fynediad i hyfforddiant a chyflogaeth: gall hyn fod yn rhwystr rhag ymuno â'r farchnad lafur a symud ymlaen ynddi, yn enwedig i bobl ifanc nad oes car ar gael iddynt neu sydd â mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth gyhoeddus;

Tudalen 26 o 35

Atodiad B ymateb PEIR 05-12-2016

- Cyflawni rhaglen hyrwyddo a hybu ymwybyddiaeth am y cyfleoedd gan ddefnyddio sianeli cyhoeddusrwydd presennol a mentrau ar y we. Defnyddio'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y prosiect er mwyn cynyddu / gwella cyflogaeth leol.

18.2 Y Gadwyn Gyflenwi

